HTA
Human Tissue Authority

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2025/26

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

HC 460

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2025/26
Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026
Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Atodlen 2(16) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan Weinidogion Cymru yn unol ag Atodlen 2(16) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar **16 Gorffennaf 2026**

HC 460

(h) Hawlfraint y Goron 2026
Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall.
I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents
Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn enquiries@hta.gov.uk
ISBN 978-1-5286-6260-4
E03545504 07/26
Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu
Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cynnwys

Rhagair y Prif Weithredwr	4
Adroddiad ar Berfformiad	6
Trosolwg	7
Dadansoddi perfformiad	19
Adroddiad Atebolrwydd	25
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	26
Yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff	40
Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio	53
Datganiadau ariannol	62

Rhagair y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Dyma'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol rwyf wedi'i gyflwyno fel Prif Weithredwr yr Awdurdod.

Gyda'n strategaeth tair blynedd (2024-2027) bellach ar waith, bu 2025/26 yn flwyddyn o droi ein huchelgeisiau strategol yn gynnydd amlwg, gan sicrhau bod y broses reoleiddio yn fwy cymesur ac yn fwy seiliedig ar risgiau, gweithio mewn ffordd arloesol, a chynnal hyder y cyhoedd bod meinweoedd ac organau dynol yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel a sicr.

Mae diwygiadau nodedig gan y llywodraeth yn y sector iechyd ac yn fwy cyffredinol o ran sut y gellir gwella prosesau rheoleiddio wedi bod yn ffactorau sbardun pwysig. Rydym wedi gweithio mewn ffordd ragweithiol gyda'n hadran noddi i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd ag agenda ddiwygio'r llywodraeth, gan ar yr un pryd barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol parhaus. Ar draws ein chwe sector rheoleiddiedig, rydym wedi cynnal rhaglen asesu cydymffurfiaeth gynhwysfawr ac wedi parhau i ddatblygu ein cyfres o adnoddau rheoleiddio, gan dreialu dulliau newydd o reoli Cynlluniau Gweithredu Cywirol ac Ataliol (CAPA) a gweithredu Hunanasesiadau wedi'u Gwerthuso (ESA) yn y sector Arddangos Cyhoeddus. Ar y cyfan, mae 25/26 wedi bod yn flwyddyn dda iawn o ran cyflawniad sefydliadol fel y dangosir gan berfformiad trawiadol yr Awdurdod, gan fodloni neu ragori ar ein holl ddangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) - y tro cyntaf i'r sefydliad wneud hynny.

Un maes ffocws pwysig y flwyddyn hon oedd ein hymateb i ymchwiliad annibynnol Syr Jonathan Michael, a gyhoeddodd ei adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2025. Gwnaeth yr ymchwiliad 75 o argymhellion ar draws amrywiol feysydd lle mae pobl ymadawedig yn cael gofal. Roedd un o'r argymhellion hyn wedi'i anelu'n benodol at yr Awdurdod – sef ehangu ein system ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau i'r sector Anatomeg. Rwy'n falch bod ein cydweithwyr wedi cyflawni hyn yn llawn, cyn y dyddiad cau a bennwyd a heb adnoddau ychwanegol, gyda'r system yn mynd yn fyw ar 1 Rhagfyr 2025.

Gwnaethom gynnydd hefyd wrth baratoi ar gyfer y Rheoliadau Sylweddau o Darddiad Dynol (SoHO) newydd, a ddaw i rym yng Ngogledd Iwerddon ym mis Awst 2027 a gwnaethom ddechrau rhaglen aml-flwyddyn i adolygu a diweddaru ein Codau Ymarfer, gwaith pwysig a fydd hefyd yn cynnwys adnewyddu ein canllawiau ar gyfer y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

Mewn perthynas â rhoi organau byw, gwnaethom gymeradwyo 1165 o achosion yn ystod y flwyddyn, cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae atgyfeiriadau o dan y Ddyletswydd i Adrodd hefyd wedi cynyddu ac mae deddfwriaeth debyg bellach yn berthnasol i bob un o wledydd y DU, gyda rheoliadau newydd sy'n berthnasol i'r Alban yn weithredol o 1 Gorffennaf 2025.

Mae ein staff yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn allweddol i bopeth a wnawn, a 2025/26 oedd blwyddyn gyntaf ein Strategaeth Pobl tair blynedd newydd. Mae cynnydd da eisoes wedi'i wneud,

gyda 30 o'r 70 o gamau gweithredu a nodwyd wedi'u cychwyn. Rwyf wrth fy modd fod y gwaith hwn wedi esgor ar ganlyniadau cynnar a bod trosiant staff wedi gostwng i'w lefel isaf ers blynyddoedd lawer.

Hoffwn ddiolch i bob un o'm cydweithwyr am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb a hefyd i Aelodau'r Bwrdd am yr her adeiladol a ddarparwyd drwy gydol y flwyddyn, sydd wedi mireinio ein dull gweithredu cyffredinol ac wedi'i wella. Rwy'n falch iawn o'r hyn y mae pob un ohonom wedi'i gyflawni gyda'n gilydd.



Dr Colin Sullivan
Prif Weithredwr

Adroddiad ar Berfformiad

Trosolwg

Pwy Ydym Ni a'r Hyn a Wnawn

Mae'r adran hon yn disgrifio pwy ydym ni a'r hyn a wnawn. Mae hefyd yn edrych ar ein perfformiad a'n cyflawniadau drwy gydol 2025/26.

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd wedi'i sefydlu a'i leoli yn Lloegr. Cawsom ein sefydlu o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (y Ddeddf) – sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – i reoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â thynnu, storio, defnyddio a gwaredu meinweoedd dynol. Rydym hefyd yn darparu llawer o wasanaethau rheoleiddio ar gyfer yr Alban, o dan ddeddfwriaeth meinweoedd dynol ar wahân. Ar draws ein cylch gwaith, rydym yn trwyddedu dros 1,000 o safleoedd ar draws chwe sector, gan gyhoeddi safonau a gofynion y mae'n rhaid i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y meysydd rheoleiddiedig hyn eu bodloni.

Ein Gweledigaeth

Defnydd diogel a sicr o feinweoedd dynol.

Ein Cenhadaeth

Bod yn rheoleiddiwr ardderchog mewn perthynas â defnyddio meinweoedd dynol yn ddiogel, gyda chydsyniad, gan gynnal hyder cyhoeddus a phroffesiynol, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn ceisio cynnal hyder cyhoeddus drwy sicrhau bod meinweoedd ac organau dynol yn cael eu tynnu, eu storio a'u defnyddio mewn ffordd ddiogel a moesegol, gyda chydsyniad priodol, yn unol â darpariaethau Deddf Meinweoedd Dynol 2004, Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu 2012 (fel y'u diwygiwyd).

Mae gennym rôl i'w chwarae hefyd i gynnal hyder proffesiynol, gan sicrhau bod y deunyddiau dynol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wedi dod i law â'r cydsyniad priodol a'u bod yn cael eu rheoli â'r gofal priodol.

Sut rydym yn gweithio

- Rydym yn trwyddedu sefydliadau sy'n tynnu, yn storio ac yn defnyddio meinweoedd dynol ar gyfer gweithgareddau penodol o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol (2004)
- Rydym yn trwyddedu sefydliadau sy'n cyflawni amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â defnyddio meinweoedd a chelloedd dynol i drin cleifion, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol)

2007 (fel y'u diwygiwyd)
- Rydym yn trwyddedu sefydliadau sy'n trawsblannu organau fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu 2012 (fel y'u diwygiwyd)
- Rydym yn monitro ac yn arolygu neu'n archwilio sefydliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'n Codau Ymarfer
- Rydym yn defnyddio ein pwerau i gymryd camau rheoleiddio pan fyddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio
- Rydym yn asesu achosion sy'n cynnwys rhoddwyr organau byw er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cymell na'u gorfodi, ac nad oes unrhyw wobr yn cael ei chynnig na'i rhoi
- Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch natur a diben gweithgareddau sy'n rhan o'n cylch gwaith
- Rydym yn monitro datblygiadau mewn perthynas â gweithgareddau sy'n rhan o'n cylch gwaith ac yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar faterion cysylltiedig
- Rydym yn cydweithio â phartneriaid ym mhob rhan o'r system ac yn mynd ati i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid
- Rydym yn agored ac yn dryloyw yn ein cyhoeddiadau er mwyn cynnal hyder cyhoeddus
- Rydym yn gymesur yn y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith

Yn ogystal â'n rôl statudol, mae galw cynyddol arnom i roi cyngor ar feysydd sy'n ymwneud â deddfwriaeth ond nad ydynt wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn meysydd lle ceir technoleg a gwaith ymchwil gwyddorau bywyd newydd, nas rhagwelwyd yn wreiddiol pan gafodd y Ddeddf Meinweoedd Dynol ei deddfu.

Er bod gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i oruchwylio cydymffurfiaeth a rôl ddylanwadol i hyrwyddo arfer da, ni all yr Awdurdod ddiogelu hyder cyhoeddus yn y defnydd a wneir o feinweoedd dynol ar ei ben ei hun. Mae hyder cyhoeddus hefyd yn dibynnu ar y graddau y mae'r unigolion a'r sefydliadau sy'n cyflawni gweithgareddau o fewn cylch gwaith yr Awdurdod, gan weithredu'n unol â safonau a gofynion y ddeddfwriaeth ar gyfer defnydd diogel a sicr o feinweoedd dynol.

Ein pobl

Mae Bwrdd yr Awdurdod yn cynnwys 11 o Aelodau ar hyn o bryd, gan gynnwys y Cadeirydd, y mae 9 ohonynt wedi'u penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un Aelod wedi'i benodi gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon; ac un gan yr Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon. Mae pob un o aelodau'r Bwrdd yn aelodau anweithredol. Yn gynnar yn 2025/26, roedd y Bwrdd yn llawn, ar ôl penodi pedwar Aelod newydd ar gyfer Lloegr ac ar ôl i'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon benodi Aelod newydd hefyd. Daw aelodau ein Bwrdd o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan gynnwys y sector masnachol, gweinyddiaeth ac academia/ymchwil, ac mae ganddynt brofiad helaeth yn y sectorau busnes, masnachol a chyhoeddus.

Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys pump unigolyn, y mae gan bob un ohonynt brofiad helaeth yn y sector cyhoeddus, yn enwedig ym maes rheoleiddio ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn rhan o dîm sy'n cynnwys tua 60 o aelodau o staff

sydd â phrofiad sy'n amrywio o gefndiroedd gwyddonol a meddygol i rolau masnachol a rolau busnes. Rydym wedi ein cydleoli yn ein swyddfeydd yn Stratford gyda phedwar rheoleiddiwr arall yn y sector iechyd ac rydym yn parhau i ystyried cyfleoedd i rannu gwasanaethau a chryfhau gwydnwch sefydliadol.

Ein gwerthoedd



Mae ein gwerthoedd yn diffinio sut rydym yn gweithio a'r uniondeb a'r ymddygiadau y gall rhanddeiliaid eu disgwyl gennym wrth gydweithio. Mae gennym bedwar gwerth craidd sydd, yn ein barn ni, i'w gweld ac yn cael eu cydnabod yn y gwasanaethau a ddarperir gennym:

Cydweithio – rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni nod cyffredin, gan geisio safbwyntiau amrywiol a'u gwerthfawrogi. Rydym yn rhannu syniadau ac arferion gorau, gan anelu at ragoriaeth ar y cyd. Drwy wrando gweithredol a gwaith tîm, rydym yn hybu diwylliant o gydweithio a chydweithredu.

Bod yn agored - rydym yn ceisio gweithio mewn modd tryloyw, gydag uniondeb ac atebolrwydd am ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Gan groesawu newid, rydym yn cymryd cyfrifoldeb ac yn onest bob amser wrth ryngweithio, gan feithrin diwylliant o feiddgarwch a chyfathrebu diffuant.


Parch – rydym yn parchu amrywiaeth pobl ac yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau, eu proffesiynoldeb a'u sgiliau. Meithrin ymddiriedaeth a hyrwyddo ymreolaeth wrth wneud penderfyniadau. Byddwn yn herio ymddygiad amhroffesiynol gan wrando'n weithredol a pharchu safbwyntiau eraill ar yr un pryd.

Rhagoriaeth – rydym yn anelu at ragoriaeth drwy arbenigedd, arweinyddiaeth a chydweithio. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygiad personol a phroffesiynol, gan hyfforddi cydweithwyr a meithrin diwylliant o ddysgu a thwf.

Yn ystod 2025/26, parhaodd ein gwerthoedd i arwain ein hymagwedd tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mabwysiadodd yr Awdurdod ddiffiniad gweithredol y Gynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost (IHRA) o wrthsemitiaeth, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2025, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i'n gwerthoedd craidd a'n gwaith parhaus ar amrywiaeth a chynhwysiant.

Ein Strategaeth

Mae ein dull strategol yn seiliedig ar fod yn glir ynghylch y risgiau rydym yn eu rheoleiddio ac yna ymateb mewn ffordd gymesur a phenodol. Parhaodd ein strategaeth tair blynedd (2024-2027), a lansiwyd yn haf 2024, i ddarparu'r fframwaith ar gyfer ein gwaith yn 2025/26. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y pedair thema strategol ganlynol.



Ein dull rheoleiddio

Mae ein blaenoriaeth strategol gyntaf yn ein galluogi i ystyried sut y gallwn ddatblygu ac addasu ein dull rheoleiddio, gan achub ar gyfleoedd i gydweithredu â rhanddeiliaid ac i ddatblygu adnoddau cymesur wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer rheoleiddio meinweoedd a chelloedd dynol. Yn 2025/26, gwnaethom barhau i arloesi wrth gynnal arolygiadau ac asesiadau cydymffurfiaeth, gan gynnwys treialu dulliau newydd o reoli Cynlluniau Gweithredu Cywirol ac Ataliol (CAPA) a gweithredu Hunanasesiadau wedi'u Gwerthuso (ESA) yn y sector Arddangos Cyhoeddus. Gwnaethom hefyd gyflwyno system newydd ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau ar gyfer y sector Anatomeg (HTARI) yn gynt na'r disgwyl, mewn ymateb i argymhelliad gan ymchwiliad annibynnol Syr Jonathan Michael.

Meithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd

Ein hail flaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn meithrin ac yn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ein gallu fel corff rheoleiddio. Mae cyfathrebu a datblygu polisïau yn weithgareddau allweddol y byddwn yn ymgymryd â nhw er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu'n llawn ac y gallwn roi newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol ar waith yn rhagweithiol. Yn 2025/26, gwnaethom gynnal Digwyddiad Dysgu poblogaidd, gweithredu ymgyrchoedd wedi'u targedu ar y cyfryngau cymdeithasol ar draws amrywiaeth o sectorau, a dechrau ein rhaglen aml-flwyddyn i adolygu a diweddaru ein Codau Ymarfer.

Defnyddio data a gwybodaeth

Ein trydedd blaenoriaeth yw defnyddio data a gwybodaeth.
Mae symud gyda'r oes yn y byd digidol rydym yn gweithredu ynddo yn hanfodol. Y flwyddyn hon, cafodd ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM), sef adnodd pwysig sy'n storio data allweddol, ei datblygu ymhellach a chynhaliwyd gwaith i uwchraddio ein system gyllid yn sylweddol.

Bod yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

Ein blaenoriaeth olaf yw parhau i fod yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol.

Mae cyflawni ein dyletswydd reoleiddio mewn modd effeithlon ac effeithiol yn bwysig i ni ac mae hefyd yn bwydo i mewn i raglen diwygio ac effeithlonrwydd y llywodraeth. Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'n swyddogaethau swyddfa gefn weithredu mewn ffyrdd sy'n cefnogi prosesau llywodraethu da a sefyllfa ariannol sefydlog, gan felly ganiatáu i'r Awdurdod weithredu'n effeithlon.

Y Tîm Gweithredol a'r staff

Caiff y Bwrdd anweithredol sy'n creu'r Awdurdod ei gefnogi gan dîm o uwch swyddogion gweithredol (yr Uwch Dîm Rheoli), gyda phedair cyfarwyddiaeth. Y tîm gweithredol sy'n gyfrifol am arwain y sefydliad o fewn yr awdurdod a ddirprwyir gan y Bwrdd: Mae'r tîm gweithredol yn gwneud y canlynol:

- Datblygu opsiynau strategol i'r Bwrdd eu hystyried a'u cymeradwyo
- Paratoi ein cynllun busnes blynyddol i'r Bwrdd a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei gymeradwyo
- Goruchwylio'r ffordd y caiff yr amcanion a nodir yn y cynllun busnes eu cyflawni
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i reoli ein hadnoddau'n briodol ac yn effeithiol
- Cymeradwyo cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i allbynnau gan gynnwys sefydlu meysydd gwaith newydd
- Cymeradwyo gwariant a newidiadau i bolisïau a thelerau ac amodau'r staff lle y bydd y rhain y tu hwnt i'r hyn a ddirprwyir i gyfarwyddwyr unigol
- Canfod a lliniaru'r risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod
- Adolygu'r sefyllfa ariannol a'r cyllidebau ar gyfer blynyddoedd i ddod, gan sicrhau y caiff rhwymedigaethau statudol eu cyflawni.

Cynnwys y staff a'u llesiant

Mae pob aelod o staff yn y sefydliad yn dod ynghyd wyneb yn wyneb bob chwarter, er bod y timau unigol hefyd yn cyfarfod wyneb yn wyneb. Yn y cyfarfodydd hyn, caiff y staff wybod am y materion presennol sy'n wynebu'r Awdurdod. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn galluogi'r staff i ddweud eu dweud a chael eu clywed. Mae'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth roi ein strategaeth newydd a aeth yn fyw yn 2024/25 ar waith. Hefyd, caiff galwadau cyfnewid wythnosol rhithwir eu cynnal eto, gan roi cyfleoedd i bob aelod o'r staff rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phob cyfarwyddiaeth, ynghyd â thiwtorialau a diweddariadau ar-lein.

Mis Ebrill 2025 oedd dechrau'r Strategaeth Pobl tair blynedd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025. Mae cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn yr elfennau i'w cyflawni a restrir yn y strategaeth. Cynhaliwyd Arolygon Pwls yn 2025/26 i ddarparu pwyntiau cyswllt â staff. Cafodd Fforwm Staff ei sefydlu er mwyn i'r staff allu rhoi adborth i'r tîm gweithredol i sicrhau bod gan y staff lais ac y gall y tîm gweithredol ymateb yn unol â hynny. Yn ystod Haf 2026/27, cynhelir arolwg staff manylach, a gellir addasu'r Strategaeth Pobl yn unol â hynny.

Sefydlwyd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, gyda chyngor iechyd a diogelwch arbenigol yn cael ei roi gan dîm Iechyd a Diogelwch y Comisiwn Ansawdd Gofal o dan gytundeb gwasanaethau a rennir. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o bob cyfarwyddiaeth, a chaiff y camau gweithredu eu rhoi ar waith, gan gyflwyno

adroddiadau i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Fforwm Staff. Mae gennym gontract Llesiant ar waith i gynnig cymorth i aelodau o staff fel y bo angen, o safbwynt preifat ac o safbwynt proffesiynol.

Prif lwyddiannau yn 2025/26

Roedd ein cynllun busnes 2025/26 yn cynrychioli ail flwyddyn ein strategaeth tair blynedd, ac yn erbyn cefndir o weithgarwch diwygio sylweddol gan y llywodraeth ar draws y sector iechyd, gwnaethom gynnal perfformiad da ar draws ein gweithrediadau craidd, gan gyflawni neu ragori ar y rhan fwyaf o'n dangosyddion perfformiad allweddol drwy gydol y flwyddyn. Yn gyffredinol, dyfarnwyd statws Gwyrdd i'r Cynllun Busnes ar gyfer pob un o'r pedwar chwarter.

Ymhlith y llwyddiannau rheoleiddiol nodedig roedd perfformiad parhaus ein rhaglen arolygu, gyda phob DPA ar gyfer Rheoleiddio yn wyrdd a gwelliant o ran amseroldeb penderfyniadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau newydd. Parhaodd ein gwaith Rhoi Organau Byw, gyda phenderfyniadau amserol yn cael eu gwneud yn unol â meini prawf deddfwriaethol.

Un o uchafbwyntiau penodol y flwyddyn oedd ein llwyddiant wrth roi system yr Awdurdod ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau (HTARI) ar gyfer y sector Anatomeg ar waith, yr unig argymhelliad o adroddiad Ymchwiliad Cam 2 Syr Jonathan Michael a oedd wedi'i gyfeirio at yr Awdurdod. Cafodd hyn ei gyflawni o fewn amserlen dynn, heb adnoddau ychwanegol, a heb gael unrhyw effaith andwyol ar berfformiad yn erbyn DPA eraill. Cwblhawyd y gwaith yn gynt na'r cerrig milltir mewnol a bennwyd, ac aeth y system yn fyw ar 1 Rhagfyr 2025. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom gyhoeddi canllawiau cyffredinol ar urddas a gofal i bobl ymadawedig ym mis Hydref 2025.

Roedd ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gryf drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu, wythnosau thema ar y cyfryngau cymdeithasol, a byrddau crwn yn seiliedig ar sectorau. Daeth y Digwyddiad Dysgu a gynhaliwyd ym mis Medi 2025 â rhanddeiliaid ynghyd o bob rhan o'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

Cyflawni'r prosiect newid yn 2025/26

Yn yr un modd, roedd ein rhaglen gweithgareddau newid ar y trywydd cywir yn ystod pob chwarter, gyda phob prosiect hanfodol yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd. Roedd ffrydiau gwaith arwyddocaol yn cynnwys cam cyntaf yr adolygiad o'r Codau Ymarfer a gwaith paratoi parhaus ar gyfer Rheoliadau Sylweddau o Darddiad Dynol newydd yr UE, a ddaw yn weithredol yng Ngogledd Iwerddon o fis Awst 2027. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn, lansiwyd System Rheoli Newid Technoleg newydd, cwblhawyd y gwaith o uwchraddio ein System Gyllid, a dechreuwyd ar brosiect i drosglwyddo ein system CRM i Dynamics 365 yn y cwmwl.

Materion a heriau allweddol yn 2025/26

Rhoi diwygiadau'r llywodraeth ar waith

Yn ystod misoedd cyntaf 2025/26, gwnaeth y llywodraeth gyfres o gyhoeddiadau arwyddocaol, gan gynnwys Adolygiad Tirwedd Cyrff Hyd Braich (Ebrill 2025), yr Adolygiad o Wariant (Mehefin 2025), y Cynllun Iechyd 10 Mlynedd ar gyfer Lloegr (Gorffennaf 2025), Adroddiad Dash (Gorffennaf 2025), a Chynllun y Sector Gwyddorau Bywyd (Gorffennaf 2025). Daeth y cyhoeddiadau hyn yn sgil y penderfyniad cynharach (ym mis Mawrth 2025) i uno'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a GIG Lloegr. Drwy gydol y flwyddyn, gweithiodd yr Awdurdod i alinio ei weithgareddau â'r pecyn hwn o ddiwygiadau ac i ymgysylltu â swyddogion perthnasol yn y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Moderneiddio'r gyfundrefn reoleiddio

Yn ystod 2025/26, parhaodd yr Awdurdod i fwrw ati i ddatblygu dulliau wedi'u teilwra a'u targedu'n fwy penodol o gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio. Gwnaethom fwrw ati â cham arall o'n prosiect “Innovations in Inspections" a oedd yn cynnwys treialu prawf cysyniad o ddull gwahanol o reoli cynlluniau Gweithredu Cywirol ac Ataliol (CAPA) ar ddiffygion a nodwyd mewn 20 o arolygiadau. Ein nod cyffredinol yw defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn y ffordd fwyaf effeithiol ac mae budd cronedig y mentrau a dreialwyd ac a fabwysiadwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi golygu ein bod wedi llwyddo i gynnal 226 o asesiadau rheoleiddio wedi'u cynllunio yn 2025/26 a hynny mewn perthynas ag ychydig dros 1000 o drwyddedau, sy'n fwy nag yn ystod blynyddoedd blaenorol. Mae datblygiadau arloesol parhaus yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi ehangu'r amrywiaeth o adnoddau asesu er mwyn sicrhau prosesau goruchwylio cymesur ar draws ein sectorau. Mae rhai uchafbwyntiau ar gyfer 2025-26 yn cynnwys:

- Cynhaliwyd bron pob arolygiad yn y sector Ymchwil a chyfran fawr yn y sector Anatomeg gan un arolygydd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddiwyd at ddibenion hyfforddi.
- Ar ôl mabwysiadu Hunanasesiadau wedi'u Gwerthuso (ESA) ym maes Ymchwil, aethom ati'n llwyddiannus i dreialu Hunanasesiadau wedi'u Gwerthuso (ESA) ar draws hanner y sector Arddangos Cyhoeddus a byddwn yn cwblhau'r rhaglen waith honno yn 2026/27.
- Wrth i'r lefelau risg uchel, digwyddiadau a diffygion barhau, roedd parhau i ddefnyddio arolygiadau dirybudd gan ddau berson ar gyfer y sector PM yn hynod werthfawr wrth nodi materion a galluogi ffocws clir ar arferion gweithredol effeithiol.
- Gwnaethom hefyd gyflwyno ein hail Ymarfer Casglu Data symlach i gefnogi ein dull gweithredu seiliedig ar risg wedi'i lywio gan ddata-- o reoleiddio, gan gasglu gwybodaeth sector-benodol wedi'i thargedu -gan sefydliadau trwyddedig i lywio ein gwaith proffilio risg, cynllunio arolygiadau a blaenoriaethu rheoleiddiol. Cafodd 547 o sefydliadau o bob sector eu cynnwys yn yr ymarfer, a chafwyd cyfradd ymateb o 100%, gan elwa ar welliannau cyflwyno a wnaeth yr ymarfer yn fwy effeithlon a hygyrch, ond gan hefyd gynnal sicrwydd y data. Mae'r Ymarfer Casglu Data yn cynnig dull cymesur a chost-effeithiol- o feithrin gwybodaeth amserol am y risgiau i'r sector, yn enwedig i sefydliadau nad ydynt yn cael eu harolygu mor aml, fel rhan o fframwaith asesu rheoleiddiol integredig.

Ehangu'r 'Ddyletswydd i Adrodd' i'r Alban

O 1 Gorffennaf 2025, rhoddodd Llywodraeth yr Alban ddyletswydd statudol[1] ar rai clinigwyr

[1] Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Cyflenwi Gwybodaeth am Drawsblaniadau) (Yr Alban) 2025.

penodol i roi gwybod i'r Awdurdod am bob achos o drawsblannu organau y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac unrhyw amheuaeth resymol y gallai trosedd sy'n gysylltiedig â rhoi organau a'u trawsblannu fod wedi cael ei chyflawni. O ganlyniad, mae'r DU gyfan bellach yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth debyg, gan fod rheoliadau wedi cael eu rhoi ar waith yn gynharach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a hynny o 1 Ebrill 2024[2]. Mae angen ystyried pob achos y rhoddir gwybod i'r Awdurdod amdano yn ofalus a, lle y bo'n briodol, ei atgyfeirio i'r heddlu i ymchwilio ymhellach iddo.

Ein pobl a'n diwylliant

Gwnaed cynnydd calonogol iawn hefyd mewn perthynas â phobl a diwylliant. Gostyngodd trosiant staff i'w lefel isaf ers sawl blwyddyn, sef 12.7%. Roedd 30 o'r 70 o gamau gweithredu a nodwyd o dan Strategaeth Pobl yr Awdurdod wedi dechrau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Symudodd y Risg Pobl o fewn yr ystod goddefiant erbyn diwedd Chwarter 3, wedi'i gefnogi gan ganlyniadau cadarnhaol mewn arolygon pwls ac adborth anffurfiol, ac roedd y gyfradd ymateb uchel o fwy na 90% yn arolwg pwls Chwarter 4 yn arwydd da o barodrwydd y staff i ymgysylltu. Aeth Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd yr Awdurdod hefyd ati i fabwysiadu diffiniad yr IHRA o wrthsemitiaeth yn ffurfiol, yn unol â'n dull gweithredu mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'n gwerthoedd craidd.

Datblygu TG a seiberddiogelwch

Roedd cyfnod 2025/26 yn drobwynt strategol o ran gwydnwch digidol yr Awdurdod, gan drawsnewid o gyfyngiadau etifeddol i seilwaith modern, sy'n barod ar gyfer y cwmwl. Drwy gyflwyno cam mawr cyntaf ein Strategaeth Digidol a TG tair blynedd, rydym wedi llwyddo i drawsnewid rhaglenni busnes hanfodol ac wedi lliniaru'r risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â thechnoleg sy'n heneiddio. Mae buddsoddiad yr Awdurdod wedi sefydlu sylfaen dechnegol gadarn, gan sicrhau bod modd datblygu systemau TG ar raddfa fawr ac y gallant ddatblygu ochr yn ochr â'n gofynion rheoleiddio heb faich systemig dyled dechnegol.

Gwnaethom bennu agenda uchelgeisiol ar gyfer 2025/26 o fewn amgylchedd allanol heriol ac rydym yn falch o fod wedi cyflawni yn erbyn yr agenda honno.

Rhagolwg

Gan edrych ymlaen at 2026/27, mae sawl digwyddiad a datblygiad arwyddocaol a fydd yn llywio ein gwaith fel sefydliad. Mae tri mater allweddol wedi'u hamlygu isod.

Parhau i weithredu Ymchwiliad Annibynnol Syr Jonathan Michael

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Ymchwiliad Annibynnol Syr Jonathan Michael i'r materion a godwyd gan achos David Fuller ym mis Gorffennaf 2025, ac roedd yn cynnwys 75 o argymhellion. Llwyddodd yr Awdurdod i roi ei argymhelliad (Rhif 26) ar waith, sef ehangu system

[2] Rheoliadau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Cyflenwi Gwybodaeth am Drawsblaniadau) 2024; https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/262/made.

HTARI ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau i'r sector Anatomeg. Cafodd hyn gydnabyddiaeth gadarnhaol mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig gan ein Gweinidog ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu cyflwyno Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig pellach ym mis Gorffennaf 2026 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Senedd y DU ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r gyfres ehangach o argymhellion. Byddwn yn parhau i gefnogi'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Bwrdd y Rhaglen a sefydlwyd i oruchwylio'r broses weithredu, ac i gynorthwyo cyrff eraill lle gall ein profiad a'n harbenigedd ychwanegu gwerth. Er bod argymhelliad ffurfiol yr Awdurdod ei hun wedi'i gyflawni, bydd y cwestiynau systemig ehangach a godwyd gan yr Ymchwiliad ynghylch gofal pobl ymadawedig yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio yn ystod y flwyddyn nesaf.

Rheoliadau Sylweddau o Darddiad Dynol

Daw Rheoliadau Sylweddau o Darddiad Dynol newydd yr UE i rym yng Ngogledd Iwerddon ym mis Awst 2027, a bydd y gwaith paratoi ar gyfer y newid sylweddol hwn i'r gyfundrefn reoleiddio yn dwysáu yn ystod 2026/27. Yn ystod 2025/26, cwblhaodd yr Awdurdod adolygiad manwl o'r canllawiau EDQM sy'n sail i'r Rheoliadau newydd. Mae hyn yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r model trwyddedu a rheoleiddio newydd y bydd ei angen pan ddaw'r Rheoliadau i rym. Yn 2026/27, byddwn yn bwrw ati â chamau nesaf y gwaith hwn, gan gynnwys datblygu canllawiau a systemau, er mwyn sicrhau ein bod wedi ein paratoi'n llawn cyn y dyddiad gweithredu ym mis Awst 2027. Bydd yn broses aml-flwyddyn gymhleth a bydd angen adnoddau polisi ac adnoddau gweithredol parhaus.

Agenda ddiwygio'r llywodraeth

Yn ystod 2025/26, ymatebodd yr Awdurdod i gyfnod o ddiwygiadau sylweddol gan y llywodraeth. Mae'r diwygiadau hyn yn parhau i lywio'r amgylchedd gweithredu ar gyfer yr Awdurdod wrth i ni symud ymlaen i 2026/27. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth, gan gefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Iechyd 10 Mlynedd a'r Cynllun Twf Gwyddorau Bywyd, a chyfrannu at yr ymgyrch tuag at ddulliau rheoleiddio cymesur sy'n galluogi twf. Datblygwyd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2026/27 gan ystyried hyn. Byddwn yn parhau i gefnogi Gweinidogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'u swyddogion, ac i weithio gyda'r teulu ehangach o gyrff hyd braich yn y sector iechyd i sicrhau bod yr Awdurdod yn chwarae ei ran lawn wrth gyflawni agenda iechyd y llywodraeth, gan ar yr un pryd gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio statudol.

Risgiau strategol ar 31 Mawrth 2026

Amlinellir y prif risgiau a allai gael effaith sylweddol ar weithrediad cyffredinol yr Awdurdod, os cânt eu gwireddu, isod.

Drwy ystyried y risgiau hyn, gallwn asesu hyfywedd parhaus ein strategaeth a'n cynllun busnes yn erbyn amgylchiadau newidiol a gwneud addasiadau lle bo angen. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i'r risgiau gael eu gwireddu. Mae'n nodi bod y rhain yn feysydd risg y bydd angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt ac ystyried ein hymateb iddynt er mwyn cyflawni ein rôl yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein dull o reoli risgiau strategol a'n dull asesu i'w gweld yn y datganiad llywodraethu.

Ceir methiant rheoleiddio sylweddol sy'n arwain at ganlyniadau negyddol i aelodau o'r cyhoedd, rhanddeiliaid ehangach ac aelodau o staff.

Mae'r risg hon yn ystyried y posibilrwydd o fethiannau rheoleiddiol, megis methu â chanfod achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio gan sefydliad trwyddedig neu fethu â mynd i'r afael ag achos o'r fath mewn modd amserol. Gallai hyn arwain at niwed i'r cyhoedd, colli hyder proffesiynol, a cholli ymddiriedaeth yn yr Awdurdod fel rheoleiddiwr effeithiol.

Yn ystod 2025/26, roedd yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol ym maes rheoleiddio o fewn y disgwyliadau. Gwnaethom barhau i ddatblygu ein hadnoddau a'n dull rheoleiddio, gan gynnwys treialu Hunanasesiadau wedi'u Gwerthuso (ESA) yn y sector Arddangos Cyhoeddus a pharhau i arloesi yn ein dulliau rheoli arolygu o dan y Cynllun Gweithredu Cywirol ac Ataliol (CAPA). Gwnaethom hefyd lwyddo i ehangu ein system ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau (HTARI) i'r sector Anatomeg, yr unig argymhelliad ffurfiol o adroddiad Ymchwiliad Cam 2 Syr Jonathan Michael a oedd wedi'i gyfeirio at yr Awdurdod.
Rydym yn parhau i liniaru'r risg hon drwy ein rhaglen arolygu seiliedig ar risg, ymgysylltu rheoleiddiol rhagweithiol, prosesau casglu gwybodaeth cadarn, llwybrau uwchgyfeirio cadarn, a thrwy barhau i ddatblygu ein galluoedd o ran gwybodaeth reoleiddio wedi'i llywio gan ddata.

Mae ein henw da fel awdurdod arbenigol dibynadwy mewn perygl os bydd camddealltwriaeth ynghylch defnyddio a rheoleiddio meinweoedd dynol yn bwrw amheuon dros ein harweiniad arbenigol, gan o bosibl danseilio hyder y cyhoedd a chydymffurfiaeth reoleiddiol ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

Ceir risg o gamganfyddiad o'n cylch gwaith ymhlith y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol, neu y bydd cydberthnasau allanol gwan yn arwain at fylchau mewn trefniadau rheoli risg yn yr holl sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Gallai hyn olygu y caiff risgiau eu rheoli'n wael ar lefel y system.

Yn ystod 2025/26, gwnaethom barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy Ddigwyddiad Dysgu poblogaidd ym mis Medi 2025. Gwnaethom gyfarfod yn rheolaidd â swyddogion ac ar adegau â Gweinidogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Gwnaethom barhau i gymryd rhan yn y Fforwm Rheoleiddwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyfarfodydd rheolaidd i Uwch-arweinwyr Cyrff Hyd Braich. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn cydnabod, yn ystod cyfnod o ddiwygiadau gan y llywodraeth sy'n cynnwys ailstrwythuro ein hadran gynhaliol, ei bod hi'n bwysicach fyth ein bod yn parhau i gyfleu ein rôl a'n cylch gwaith mewn ffordd glir a chyson.

Ymhlith y mesurau lliniaru mae cyfleu ein rôl yn glir, gwaith ymgysylltu strategol â rhanddeiliaid, sganio'r gorwel yn rheolaidd, a gwaith ymgysylltu rhagweithiol â Gweinidogion, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a phartneriaid system.

Methu â sicrhau bod gennym y bobl sydd eu hangen arnom sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac wedi'u cymell i wneud yr holl bethau y mae angen i ni eu cyflawni.

Fel sefydliad bach arbenigol, mae'r Awdurdod yn wynebu risg y gallai capasiti neu alluogrwydd annigonol ymhlith ein staff effeithio ar ein gallu i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a'n blaenoriaethau strategol.

Roedd y risg hon uwchlaw'r ystod goddefgarwch ar ddechrau 2025/26, gyda chyfraddau gadael yn uwch na'n cyfradd darged. Gwnaed cynnydd sylweddol drwy gydol blwyddyn gyntaf ein Strategaeth Pobl tair blynedd. Roedd 30 o'r 70 o gamau gweithredu a nodwyd o dan y strategaeth wedi'u cychwyn erbyn diwedd y flwyddyn, gan ymdrin â meysydd a oedd yn cynnwys datblygu arweinwyr, rheoli perfformiad, sefydlu, llesiant, a gwella systemau adnoddau dynol. Erbyn diwedd Chwarter 3, roedd y Risg Pobl wedi symud o fewn yr ystod goddefiant, wedi'i gefnogi gan ganlyniadau arolygon pwls cadarnhaol a gostyngiad amlwg mewn trosiant i'w lefel isaf ers blynyddoedd lawer (ac eithrio misoedd cynnar Covid). Roedd lefelau salwch staff yn isel am y rhan fwyaf o hanner cyntaf y flwyddyn ac o fewn y targed am y rhan fwyaf o'r misoedd. Cyflawnodd yr Arolwg Pwls a gynhaliwyd ar ddechrau Chwarter 4 gyfradd ymateb uchel iawn a oedd dros 90%.

Rydym yn cydnabod bod angen ymrwymiad parhaus er mwyn cynnal y gwelliant hwn wrth i ni symud at ail flwyddyn y Strategaeth Pobl, ac, fel sefydliad bach, y gall achosion unigol o staff yn gadael gael effaith anghymesur ar y prif ffigurau. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i raglen tair blynedd lawn.

Methu â bod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol a/neu i fodloni disgwyliadau effeithlonrwydd yr Adolygiad o Wariant a gofynion eraill.

Y risg yw ei bod yn bosibl na fydd gennym ddigon o adnoddau ariannol, neu na fydd ein hadnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n ddigon effeithiol, i gyflawni ein swyddogaethau yn llawn. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n ymwneud ag anwadalrwydd incwm, pwysau cost, adennill ffioedd a phwysau cyllido allanol.

Yn ystod 2025/26, cynyddodd y risg ariannol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn oherwydd pwysau allanol, gan gynnwys moratoriwm gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wariant nas ymrwymwyd a gyflwynwyd yn Ch1. Cymerwyd amrywiaeth o gamau lliniaru, gan gynnwys adolygiad manwl o bob un o linellau'r gyllideb, gostyngiadau mewn gwariant nad yw'n hanfodol, ac arbedion mewn sawl maes costau. Roedd perfformiad adennill dyledion yn gryf, gyda 98% o ffioedd trwydded blynyddol wedi'u casglu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025.
Mae'r camau gweithredu i liniaru'r risg hon yn parhau i gynnwys llywodraethu ariannol cryf, adolygiadau rheolaidd o sefyllfa'r gyllideb gan y tîm gweithredol a'r Bwrdd, model cadarn ar gyfer ffioedd trwydded a gweithdrefnau rheoli ac adennill dyledion cadarn.

Rydym yn methu â chadw i fyny ac addasu i ddatblygiadau arloesol, twf a diwygiadau

Roedd hon yn risg newydd a gyflwynwyd yn 2025/26 i adlewyrchu diwygiadau arfaethedig a newidiadau posibl ar draws y dirwedd reoleiddio a gwyddorau bywyd gan gynnwys adolygiad o gyrff hyd braich, cynigion ar gyfer diwygio rheoleiddio, a chyfleoedd ar gyfer datblygiadau digidol a thechnolegol. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u hategu gan ymrwymiad i leihau'r baich rheoleiddiol a gweinyddol ac, o ganlyniad, ail-lunio'r dirwedd reoleiddio. Mae'r lefel hon o newid yn sylweddol, ac roedd yn hanfodol sicrhau bod gan yr Awdurdod y capasiti i ymgysylltu â'r system ac i gyfrannu at y newidiadau i'r gyfundrefn reoleiddio drwy lens defnyddio meinweoedd dynol yn ddiogel. Felly, roedd angen ffocws mwy strategol ar y themâu sy'n dod i'r amlwg yn ein tirwedd er mwyn lliniaru neu baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau a allai gael effaith sylweddol ar yr Awdurdod ac mae ein gwaith sganio'r gorwel yn helpu i liniaru'r risg hon.

Gallai methu â buddsoddi, cynnal a defnyddio systemau TG yn unol ag anghenion busnes a safonau diogelwch arwain at seiberymosodiad llwyddiannus neu at golli data

Mae'r risg hon yn ymwneud â gallu'r Awdurdod i gynnal, datblygu a defnyddio ei seilwaith technoleg a data yn effeithiol i gefnogi gweithrediadau craidd a diogelu gwybodaeth sensitif. Yn ystod 2025/26, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd yn erbyn y risg hon. Lansiwyd System Rheoli Newid Technoleg newydd yn Ch2, diweddarwyd porth yr Awdurdod, a gwnaed gwaith pwysig ar brosesau wrth gefn ac adfer er mwyn gwella gwydnwch. Penodwyd Dadansoddwr Data newydd i swydd wag, gan ein galluogi i gasglu a pharatoi 22 o setiau data craidd i'w cyhoeddi. Cwblhawyd y gwaith i ddiweddaru'r System Gyllid erbyn diwedd y flwyddyn, gan symud yr Awdurdod i blatfform wedi'i gefnogi mwy sefydlog. Yn Ch3, nodwyd bod ein datrysiad CRM yn dod at ddiwedd ei oes, a gyflymodd gynlluniau i drosglwyddo i Dynamics 365 yn y cwmwl. Rydym ar y trywydd cywir i gyflwyno'r system newydd erbyn mis Mehefin 2026.

Erbyn diwedd y flwyddyn, cytunodd yr Uwch Dîm Rheoli i symud y risg Diogelwch sy'n ymwneud yn benodol â seiberymosodiadau i'r ystod goddefgarwch, gan adlewyrchu'r dirwedd bygythiadau barhaus sy'n datblygu. Er bod yr Awdurdod yn cynnal rheolaethau cadarn a sefyllfa gadarnhaol o ran diogelwch, fel y gwelwyd gan yr asesiad a gynhaliwyd yn 2024/25 o dan Fframwaith Seiberasesu (CAF) y GIG, a gofnododd hyder uchel a risg isel, mae'r Awdurdod yn parhau'n wyliadwrus ac mae wrthi'n cynnal profion treiddio blynyddol ac ymarferion ymgyrchoedd gwe-rwydo i gryfhau ein hamddiffynfeydd ymhellach.

Busnes gweithredol

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn y Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

Mae Senedd y DU wedi dangos ei hymrwymiad i barhau i ariannu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol rhagweladwy ac mae'r Adran yn ariannu'r Awdurdod drwy gymorth grant, sy'n ychwanegol at adnoddau a ddaw o ffioedd trwydded o'r sector preifat a'r sector

cyhoeddus.

Cytunwyd ar lefel y cyllid gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunodd yr Awdurdod ar ein ffioedd trwydded ym mis Rhagfyr 2025 a rhoddwyd gwybod i'r sectorau yn ystod pedwerydd chwarter 2025/26. Rydym yn cynnal cronfeydd wrth gefn i dalu gwerth 6 mis o'r gyflogres a gwariant gweithredu.

Nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd ein gwasanaethau yn dod i ben. Nid yw adolygiad sy'n mynd rhagddo o Gyrff Hyd Braich gan Swyddfa'r Cabinet wedi effeithio ar gylch gwaith yr Awdurdod, ac nid yw'n debygol y byddai unrhyw gynnig yn dod â'r broses o reoleiddio'r sectorau sy'n caffael ac yn defnyddio meinweoedd dynol i ben.

Mae'r Awdurdod o'r farn ei fod yn parhau i gael ei ystyried yn fusnes gweithredol.

Dadansoddi perfformiad

Mae'r adran hon yn ystyried perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ein blaenoriaethau allweddol, fel y'u nodir yn y Cynllun Busnes.

Mesur perfformiad

Bob blwyddyn, rydym yn cytuno ar Gynllun Busnes gyda'n rhiant-adran yn y llywodraeth, sef yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cynllun blynyddol yn deillio o Strategaeth yr Awdurdod (2024-27) sydd hefyd wedi'i chymeradwyo gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Rydym yn defnyddio dull Rheoli Portffolio gweithredol fel ffordd ddeinamig o gyflawni, rheoli ac adrodd ar ein Cynllun Busnes, gan olrhain cynnydd drwy gwblhau gweithgareddau newid a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn llwyddiannus. Mae ein dull Rheoli Portffolio ystwyth yn cyd-fynd â Safon Gweithredol y Llywodraeth ar gyfer Cyflawni Prosiectau.

Dadansoddiad o berfformiad dros y flwyddyn: Cynllun Busnes – Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2025/26

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt gyda'n Bwrdd.

	Targed	2025/26	2024/25
Dull Rheoleiddio			
[1] 222 **o asesiadau cydymffurfiaeth** ar draws pob sector [adroddiadau chwarterol yn erbyn y dyraniad a gynlluniwyd]	222	226*	223
[2] Gwnaed penderfyniadau ar 70% o **geisiadau am drwydded newydd** o fewn 90 diwrnod o dalu ffi'r cais (cyfartaledd blynyddol treigl) [adroddiadau chwarterol]	70%	78%*	80%
[3] Cafodd 99% o **achosion panel ac achosion nad ydynt yn rhai panel** eu rhoi ar waith o fewn 10 a 5 diwrnod gwaith yn y drefn honno [adroddiadau misol]	99%	100%*	100%

Ymddiriedaeth a Hyder			
Dd/G			
Defnyddio Gwybodaeth			
[4] Lefel **argaeledd systemau** o 99% ar draws ein swyddogaethau hanfodol craidd, y tu allan i drefniadau cynnal a chadw wedi'u hamserlennu a gwaith gosod patsys ar systemau [adroddiadau misol]	99%	100%*	Dd/G
[5] Caiff **setiau data agored** a lunnir dwywaith y flwyddyn eu hasesu, eu dilysu a'u cyhoeddi o fewn 10 wythnos o ddiwedd y chwarter [adroddiadau blynyddol]	100%	100%	Dd/G
Effeithlon ac Effeithiol			
[6] Caiff 90% o **ymholiadau** eu hateb o fewn 10 diwrnod gwaith [adroddiadau misol]	90%	97.3%**	92.7%
[7] Caiff 100% o **geisiadau Rhyddid Gwybodaeth** ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith [adroddiadau chwarterol]	100%	100%**	95.8%
[8] **Gwariant** gwirioneddol o fewn 3% o'r gyllideb [adroddiadau chwarterol]	3%	2.6%*	0.6%
[9] **Dyled** heb fod yn fwy na 5% o incwm ar ddiwedd y flwyddyn [adroddiadau blynyddol]	5%	0.3%	2.2%
[10] Cafwyd **barn archwilio** allanol ddiamod [adroddiadau blynyddol]		Cyflawnwyd	Cyflawnwyd

*Y mis diweddaraf
**Cyfartaledd

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd pob dangosydd perfformiad allweddol a nodir uchod naill ai wedi'i gyflawni neu llwyddwyd i ragori arno. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol i bawb yn y sefydliad ei ddathlu yn dilyn blwyddyn weithredu lwyddiannus.

Adolygiad ariannol

Mae ein cyfrifon yn cynnwys y prif ddatganiadau: y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, a'r Datganiad Llif Arian Parod. Mae'r rhain yn rhoi trosolwg o'n hincwm a'n treuliau ar gyfer y flwyddyn, ein hasedau a'n rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn, a'n llifau arian parod. Mae nodiadau ychwanegol i'r datganiadau yn cynnig gwybodaeth fanylach am ein cyfrifon. Cawsant eu paratoi gan ddilyn safonau Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth er mwyn sicrhau darlun cywir a theg.

Ein cyllid

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol a gaiff tua 5% (£299k) o gyllid arian parod drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, £80k mewn cyllid cyfalaf, a swm bach o ddarpariaeth nad yw'n arian parod (£171k) ar gyfer taliadau tybiannol fel amorteiddio a dibrisio. Mae ein cymorth grant wedi lleihau dros y pedair blynedd diwethaf yn unol ag Adolygiad Diwygio ac Effeithlonrwydd yr Adran. Daw'r cyllid sy'n weddill (95%) o ffioedd trwydded o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat gan gynnwys cyfraniadau gan y Gweinyddiaethau Datganoledig a ffioedd secondiad.

Rydym yn pennu ein ffioedd trwydded i dalu cost lawn gweithgareddau rheoleiddio a'r costau swyddfa gefn sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu fel rheoleiddiwr.

Ein gwariant

Cyfanswm ein gwariant ar gyfer blwyddyn 2025/26 oedd £6,605k (2024/25 £5,935k), sef cynnydd o 11%. Mae'r mwyafrif o'n costau'n gysylltiedig â staffio, a oedd yn cynrychioli 72% o'n gwariant yn 2025/26 (2024/25 73.6%).

Isod ceir crynodeb o'n sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2026

	Nodiadau	2025/26	2024/25
Incwm		**£'000oedd**	**£'000oedd**
Ffioedd trwydded		6,041	5,271
Arall	(a)	112	183
Cyfanswm yr incwm		**6,153**	**5,454**
Gwariant			
Costau staff		4,741	4,366
Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff		1,864	1,569
Cyfanswm y gwariant		**6,605**	**5,935**
Incwm/(gwariant) net		**(452)**	**(481)**
Cymorth grant (arian parod)	(b)	**299**	**305**
Cymorth Grant wedi'i glustnodi	(c)	**171**	**120**
(Diffyg)/Gwarged ar gyfer y flwyddyn		**18**	**(56)**

Bydd y ffigurau yn y tabl uchod yn wahanol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr oherwydd y ffordd y caiff cymorth grant a thrafodiadau cyfrifyddu technegol heblaw arian parod eu trin.
(a) Mae'r incwm arall yn cynnwys cyfraniadau gan y Gweinyddiaethau Datganoledig ac incwm o secondiad aelod o staff i'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol ar gyfer chwarter cyntaf 2025/26.
(b) Felly, caiff cymorth grant ei drin fel cyllido yn ein cyfrifon statudol ac felly mae'n ofynnol peidio â'i gynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sydd ar dudalen 62 yn y datganiadau ariannol, a'i gynnwys yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr, sydd ar dudalen 65.
(c) Cawsom sicrwydd ar gyfer ein trafodiadau heblaw arian parod, nad ydynt yn cynrychioli trafodiadau gweithredol ac nad ydynt wedi'u dangos yn y dadansoddiad uchod.

Perfformiad ariannol


Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, roedd y sefydliad bron â chyrraedd sefyllfa o adennill costau, gan gofrestru gwarged cymedrol o £18,000 cyn cyfrif am eitemau nad ydynt yn arian parod a ddaeth i gyfanswm o £171,000. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad pellach yn y diffyg o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Cynyddodd cyfanswm y gwariant gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon £670k (11.3%) i £6,605k, gan adlewyrchu'r buddsoddiad strategol mewn cyfalaf dynol a gwelliannau i seilwaith digidol yn bennaf. Y prif ffactor a ysgogodd yr amrywiant hwn oedd cynnydd o £375k mewn

cyflogau, ynghyd â chynnydd o £242k mewn costau rhedeg cyfrifiaduron wrth i'r Awdurdod barhau i foderneiddio ei systemau gweithredol. Cynyddodd ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol hefyd £72k. Cafodd y symudiadau hyn i fyny eu lliniaru'n rhannol gan arbedion a wireddwyd mewn contractau cynnal a chadw, lle cafwyd gostyngiad o £35k, ac amrywiant ffafriol mewn costau ymgynghori. Ein dyraniad gwariant cyfalaf ar gyfer 2025/26 oedd £80k, a gwariwyd £74k er mwyn uwchraddio'r feddalwedd gyfrifyddu Great Plains.

Dadansoddiad o wariant gros

Mae'r graff isod yn dangos ble rydym wedi gwario ein cyllid yn ystod y tair blwyddyn ariannol diwethaf.



Gwybodaeth ariannol arall

Taliadau i gyflenwyr

Rydym yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Talu'n Well drwy dalu ein cyflenwyr o fewn 30 diwrnod ar ôl cael anfoneb. Ni wnaed unrhyw daliadau llog i gyflenwyr o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998.

Targed yr Awdurdod	2025/26	2024/25
Gwneud 100%* o daliadau o fewn 10 diwrnod i dderbyn anfoneb nad oes dadl yn ei chylch.	**Cafwyd 368 o anfonebau, y talwyd 346 (94%) ohonynt o fewn 10 diwrnod**	**Cafwyd 363 o anfonebau, y talwyd 341 (93.9%) ohonynt o fewn 10 diwrnod**
Targed y Cod Ymarfer Talu'n Well	**2025/26**	**2024/25**

Gwneud 100%* o daliadau o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb nad oes dadl yn ei chylch.	**Cafwyd 368 o anfonebau, y talwyd 367 (99.7%) ohonynt o fewn 30 diwrnod**	**Cafwyd 363 o anfonebau, y talwyd 363 (100%) ohonynt o fewn 30 diwrnod**

*Newid yn y Targed o 90% i 100%

Rhagolwg ariannol

Cymeradwyodd yr Awdurdod ein cyllideb flynyddol ar gyfer 2026/27 ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r gyllideb hon yn nodi ein gwariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, gweithiodd y tîm cyllid yn agos gyda'r cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau bod yr holl gynigion wedi'u costio'n llawn ac yn gywir.

Cytunodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ein cymorth grant ym mis Mawrth 2026. Cytunodd yr Awdurdod ar y ffioedd ar gyfer yr holl sefydliadau trwyddedig ym mis Rhagfyr 2025 a chawsant eu cyhoeddi ar ddechrau mis Ebrill 2026. Cafodd y pwysau cost a ragwelir, gan gynnwys codiadau cyflog a chwyddiant, eu cynnwys yng nghyllideb 2026/27.

Y ffocws allweddol fydd cyflawni ein cynllun busnes ac ymrwymiadau eraill gan gynnal rheolaeth ariannol gaeth a chyflawni yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni o fewn y targedau ar gyfer nifer y staff.

Adroddiad Cynaliadwyedd

Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol wedi'i leoli mewn rhan fach o adeilad swyddfa a rennir ar gyrion Llundain. Caiff mesurau rheoli amgylcheddol sy'n berthnasol i'r adeilad cyfan – fel cyfleusterau ailgylchu, gwasanaethau gwastraff a systemau ynni-effeithlon – eu goruchwylio gan y landlord. O ganlyniad, nid oes gan yr Awdurdod lawer o ddylanwad uniongyrchol dros berfformiad amgylcheddol yr ystad.

Mae prif effeithiau amgylcheddol gweithredol yr Awdurdod yn ymwneud â theithiau busnes a gweithgarwch caffael. Mae'n ofynnol i'r staff ymgymryd â theithiau busnes swyddogol mewn ffordd gost-effeithiol, gan ddefnyddio trenau neu drafnidiaeth gyhoeddus arall lle bynnag y bo'n addas. Mae'r sefydliad yn caffael nwyddau a gwasanaethau drwy fframweithiau Gwasanaeth Masnachol y Goron yn bennaf, sy'n cynnwys ystyriaethau cynaliadwyedd fel rhan o'u dyluniad.

Fel corff cyhoeddus anadrannol gweithredol, mae'r Awdurdod yn darparu data amgylcheddol chwarterol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w helpu i gyflwyno adroddiadau cyfunol yn erbyn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofyniad i adrannau'r llywodraeth ganolog gyflwyno adroddiadau ar ran eu hasiantaethau gweithredol, eu hadrannau anweinidogol a'u cyrff cyhoeddus anadrannol.

At ddibenion datgeliadau cynaliadwyedd yr Adroddiad Blynyddol, mae cyfnod 2025/26 yn flwyddyn drosiannol o dan Ganllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd y llywodraeth. Nid yw'n ofynnol i gyrff nad ydynt wedi bod o fewn cwmpas gofynion adrodd ar gynaliadwyedd llawn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth gymhwyso'r gofynion adrodd llawn ar gyfer y cyfnod hwn. Felly mae'r Awdurdod yn darparu gwybodaeth amgylcheddol ar sail gymesur, gan adlewyrchu ei faint bach

a'i ôl troed amgylcheddol cyfyngedig. Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiadau sy'n cyd-fynd â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) ar gyfer 2025/26 oni bai y caiff gyfarwyddyd i wneud hynny gan ei adran noddi. Mae canllawiau o'r fath yn bennaf berthnasol i adrannau'r llywodraeth ganolog a chyrff hyd braich mwy o faint.

Nodir newid sylweddol yn yr allyriadau teithiau busnes a nodwyd ar gyfer 2025/26. Mae hyn yn adlewyrchu cyflawnrwydd a chywirdeb y data a ddarparwyd gan ddarparwr teithio'r Awdurdod, yn lle'r fethodoleg amcangyfrif a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyflwyno gwybodaeth gywir wrth iddi ddod ar gael.

Crynodeb o berfformiad

Gweithgaredd	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
Cyfanswm tCO_2e^2	**Km a deithiwyd**	**Km a deithiwyd**	**Tunelli CO_2e^2**	**Tunelli CO_2e^2**
Car	42,254	29,943	7.18	5.31
Hedfan	49,141	21,196	10.63	2.28
Trenau	214,860	63,613	7.83	4.17

Ariannol gwybodaeth	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
	Trenau	**Trenau**	**Hedfan**	**Hedfan**
Gwariant	£75,790	£74,566	£12,937	£8,968
Nifer y trafodiadau/teithiau hedfan	1520	986	93	44



Dr Colin Sullivan
Swyddog Cyfrifyddu **13 Gorffennaf 2026**


Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Strwythur Llywodraethu

Mae'r diagram isod yn dangos y strwythur llywodraethu a rheoli risg, ac mae'r adrannau dilynol yn disgrifio rôl y Bwrdd, y pwyllgorau a'r Uwch Dîm Rheoli.



Yn ystod 2025/26, roedd y Bwrdd yn cynnwys 13 o aelodau ar un adeg yn ystod y flwyddyn (5 yn cyrraedd a 2 yn gadael yn ystod y flwyddyn), pob un wedi'i benodi drwy broses gyhoeddus agored. Ar 31 Mawrth 2026, roedd y Bwrdd yn cynnwys 11 o aelodau. Isod ceir rhestr o aelodau'r Bwrdd yn ystod 2025/26. Mae bywgraffiadau ar gyfer pob aelod presennol i'w gweld ar ein gwefan https://www.hta.gov.uk/about-hta/meet-our-board-and-executive-team.

Penodir aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (neu, ar gyfer un aelod yr un, fel y nodir yn y tabl uchod, gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yng Nghymru a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon) am gyfnod penodol, heb fod yn fwy na thair blynedd. Gellir eu hailbenodi ond ni chânt wasanaethu am gyfanswm o fwy na chwe blynedd. Yn achos diswyddo'n gynnar, nid oes unrhyw ddarpariaeth gytundebol am dâl digolledu. Ym mis Hydref 2025, estynnwyd cyfnod y Cadeirydd drwy eithriad i 3 Ionawr 2027 yn unol â Chod Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.

Enw	Dyddiadau Penodi	
	O	Tan
Lynne Berry (Cadeirydd) [2]	18-Tach-19	03-Ion-27
Gary Crowe [1]	01-Med-19	30-Aws-30
Ellen Donovan [1] [3]	04-Ion-21	31-Maw-27
Helen Froud	21-Ebr-25	20-Ebr-28
Andy Greenfield [1]	01-Ebr-22	31-Maw-28
Nicole Lappin [4]	12-Med-25	11-Med-28
David Lewis [1]	01-Ebr-22	31-Maw-28
David Lock	28-Tach-23	27-Tach-26
Gina Radford	21-Ebr-25	20-Ebr-28
Steve Stanbury	21-Ebr-25	20-Ebr-28
David Stanton [5]	12-Ebr-25	31-Ion-26
Mhairi Spurr (Mhairi Anderson gynt)	28-Tach-23	27-Tach-26
Jessica Watts	28-Tach-23	27-Tach-26

[1] Roedd Gary Crowe, Ellen Donovan, Andy Greenfield, a David Lewis i gyd ar eu hail dymor tair blynedd yn ystod y cyfnod adrodd.
[2] Estynnwyd ail dymor Lynne Berry (19 Tachwedd 2022 - 18 Tachwedd 2025 yn wreiddiol) drwy eithriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol tan 3 Ionawr 2027 neu hyd nes y caiff Cadeirydd newydd ei benodi, pa un bynnag oedd gyntaf.
[3] Penodwyd Ellen Donovan gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yn Llywodraeth Cymru.
[4] Penodwyd Nicole Lappin gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yn Llywodraeth Gogledd Iwerddon
[5] Ymddiswyddodd David Stanton ran o'r ffordd drwy ei dymor cyntaf.

Uwch Dîm Rheoli

Nodir isod ein Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr) a'n Cyfarwyddwyr yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 ac ar 31 Mawrth 2026.

Enw	Swydd	Ymunodd/Ymddiswyddodd
Colin Sullivan	Prif Weithredwr	Dd/G
Nicolette Harrison	Cyfarwyddwr Rheoleiddio	Dd/G
Louise Dineley	Cyfarwyddwr Data, Technoleg a Datblygu	Dd/G
Katrina Leighton-Hearn	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Dd/G
John McDermott	Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol	Dd/G

Cofrestr Buddiannau

Rydym yn cadw cofrestr buddiannau ac yn gofyn i bob aelod o'r Bwrdd a phob aelod o'r staff ddatgan unrhyw rolau cyfarwyddwr cwmni a buddiannau perthnasol eraill sydd ganddynt hwy neu eu teulu agos a'u ffrindiau a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau yn yr Awdurdod.

Mae'r aelodau hefyd yn datgan eu buddiant mewn unrhyw eitemau sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a oes unrhyw wrthdaro buddiannau ac a ddylai'r aelod dan sylw barhau i gymryd rhan yn y drafodaeth.
Cyhoeddir buddiannau'r aelodau ar ein gwefan. https://www.hta.gov.uk/about-hta/committees-and-working-groups/authority-board

Ein Harchwilwyr

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol cyfrifon yr Awdurdod. Talwyd £60,000 mewn cydnabyddiaeth i'r archwilydd allanol yn 2025/26. Ni aed i unrhyw ffioedd am waith nad oedd yn waith archwilio.

Digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol

Nodir trefniadau ar gyfer diogelwch data ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfarwyddo'r Awdurdod i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Awdurdod, yr incwm a'r gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a baratoir gan Drysorlys EF, ac yn enwedig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson.
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw amrywiadau perthnasol yn y cyfrifon.
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol, gyda chyfrifoldeb am baratoi cyfrifon yr Awdurdod a'u trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Awdurdod, yn y Memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr Awdurdod yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Cyfarwyddyd Cyfrifon

Mae'r Cyfrifon Blynyddol wedi cael eu paratoi a'u cyhoeddi gan yr Awdurdod, o dan gyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda chymeradwyaeth Trysorlys EF, yn unol ag Atodlen 2 (paragraff 16) i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae'r Cyfrifon yn nodi'r adnoddau a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod i gyflawni ei amcanion. Mae'r Cyfrifon Blynyddol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r canllawiau a nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol 2025/26.

Datganiad yr Awdurdod

Mae Uwch Dîm Rheoli'r Awdurdod wedi adolygu'r ddogfen hon ac wedi cyfrannu ati. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ar ran yr Awdurdod, wedi adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Datganiad llywodraethu

Diben y Datganiad Llywodraethu yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu'r Awdurdod a sut maent yn helpu i gyflawni ei amcanion. Mae'n nodi'r strwythurau llywodraethu, y prosesau rheoli risg, a'r prosesau rheolaeth fewnol sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi asesiad o'u heffeithiolrwydd.

Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod a hefyd ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei weinyddu mewn ffordd ddoeth a darbodus a bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Roedd y system reolaeth ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 a hyd at adeg llofnodi'r cyfrifon.

Fframwaith llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn rheoleiddiwr annibynnol a sefydlwyd yn 2005 yn sgil digwyddiadau yn y 1990au a ddatgelodd achosion o dynnu a chadw organau a meinweoedd dynol heb gydsyniad. Gwnaeth y ddeddfwriaeth a sefydlodd yr Awdurdod nid yn unig ymdrin â'r mater hwn ond hefyd ddiweddaru a chyfuno cyfreithiau eraill sy'n ymwneud â meinweoedd ac organau dynol. Sefydlwyd yr Awdurdod o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 fel un o gyrff hyd braich yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n cael ei oruchwylio gan Fwrdd a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gydag un aelod yn cael ei ddewis gan Weinidog Iechyd Cymru ac aelod arall gan Adran Iechyd Gogledd Iwerddon.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn enwebu Uwch-noddwr Adrannol sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyson dynodedig yr Awdurdod o fewn yr Adran. Mae'r Uwch-noddwr Adrannol yn gweithredu fel dolen gyswllt ar y lefel weithredol rhwng yr Awdurdod ac uwch-swyddogion yr Adran a Gweinidogion. Mae hefyd yn helpu'r Ysgrifennydd Parhaol i ddwyn yr Awdurdod i gyfrif ac i roi sicrwydd ynglŷn â'i berfformiad.

Mae tîm y noddwr Adrannol yn cefnogi'r Uwch-noddwr Adrannol drwy fod yn brif gyswllt o ddydd i ddydd rhwng yr Adran a'r Awdurdod.

Ein Bwrdd

Cawn ein llywodraethu gan y Bwrdd, sef ein corff gwneud penderfyniadau corfforaethol. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod, a'r Bwrdd yw'r corff lefel uchaf o ran gwneud penderfyniadau ar faterion sydd o bwys i'r Awdurdod cyfan o safbwynt strategol neu reoleiddiol neu o ran enw da. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn hwyluso'r broses o gyflawni diben a strategaeth yr Awdurdod. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig, drwy ei fframwaith llywodraethu, i wneud penderfyniadau priodol ar y lefel gywir o fewn yr Awdurdod, gan sicrhau atebolrwydd, gwerth hirdymor, a chyflawni ein diben o hyrwyddo buddiannau ein rhanddeiliaid.

Presenoldeb aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 (cyfarfodydd a oedd ar gael / cyfarfodydd yr aed iddynt)

	Bwrdd	Archwilio a Sicrwydd Risg	Pwyllgor Cydnabyddiaeth
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd	4	4	4
Lynne Berry (Cadeirydd yr Awdurdod)	4/4	Dd/G	4/4
Gary Crowe (Cadeirydd ARAC) [1]	1/1	1/1	Dd/G
Ellen Donovan (Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth)	4/4	Dd/G	4/4
Helen Froud	4/4	Dd/G	Dd/G
Andy Greenfield	4/4	Dd/G	Dd/G
Nicole Lappin [2]	3/3	Dd/G	Dd/G
David Lewis [4]	4/4	4/4	4/4
David Lock	4/4	Dd/G	Dd/G
Gina Radford	4/4	Dd/G	Dd/G
Steve Stanbury [3]	4/4	3/3	Dd/G
David Stanton [4]	3/3	2/3	Dd/G
Mhairi Spurr [5]	4/4	Dd/G	3/4

Jessica Watts	3/4	3/4	Dd/G

[1] Daeth ail dymor llawn Gary Crowe fel aelod o'r Bwrdd i ben ar 30 Awst 2025
[2] Penodwyd Nicole Lappin ar 12 Medi 2025
[3] Penodwyd Steve Stanbury i'r Bwrdd ar 21 Ebrill 2025 ond ni ddaeth yn aelod o ARAC ar unwaith.
[4] Daeth David Stanton yn lle Gary Crowe ond yna ymddiswyddodd ar 31 Ionawr 2026. Ef oedd cadeirydd ARAC o 1 Medi hyd at ei ymddiswyddiad. Penodwyd David Lewis yn Gadeirydd ARAC o 1 Chwefror 2026.
[5] Mhairi Anderson yn flaenorol

Gweinyddu'r Bwrdd

Y Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, gyda chymorth Ysgrifennydd y Bwrdd (ac Arweinydd y Swyddfa Breifat), sy'n cynnal prif weithdrefnau a pholisïau'r Bwrdd a chofnodion corfforaethol a chylchoedd gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgorau ac yn sicrhau eu bod yn gyfredol. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn cynnal Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cynnig cyfle i asesu amrywiaeth o wybodaeth reoli ac adroddiadau mwy manwl ar gynnydd yn erbyn elfennau o'r cynllun strategol. Maent hefyd yn galluogi'r bwrdd i ddwyn y tîm gweithredol i gyfrif am berfformiad yr Awdurdod.

Uchafbwyntiau cyfarfodydd y Bwrdd yn 2025-26

Yn ystod 2025/26, cyflawnodd y Bwrdd ei brif rôl, gan sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod yn cael eu cyflawni drwy bennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod a chefnogi a herio'r Tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am gyflawni'r cyfrifoldebau hyn o ddydd i ddydd.

Roedd yr eitemau sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn 2025/26 yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr yn nodi manylion y materion cyfredol
- Adroddiad ar Berfformiad yn ymdrin â chynnydd yn erbyn ein Cynllun Busnes, gan gynnwys Adolygiad o'r Gofrestr Risg Strategol
- Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.
- Adroddiad y Cadeirydd
- Diweddariadau gan swyddogion tîm noddwr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Yn ogystal, trafododd y Bwrdd y materion canlynol yn 2025/26:

- Gwerthusiad 12 mis o Reoliadau'r Ddeddf Meinweoedd Dynol (Cyflenwi Gwybodaeth am Drawsblaniadau) 2024
- Strategaeth yr Awdurdod ar gyfer 2024-27: Adolygiad o Flwyddyn 1
- Asesiadau Cydymffurfiaeth Tystiolaethol a dreialwyd yn y sector Post-mortem yn ystod 2024/25
- Adolygiad o Reolau Sefydlog y Bwrdd, Cylchoedd Gorchwyl y Pwyllgorau a'r dogfennau ategol.
- Urddas i Bobl Ymadawedig: Gwneud Gwelliannau
- Newid Strategol yn y Sector Iechyd ac ar draws y Llywodraeth
- Pennu'r gyllideb a chynigion ar gyfer ffioedd ar gyfer 2026/27

- Cynllun Busnes 2026/27
- Adborth o Ddigwyddiad Dysgu sectoraidd yr Awdurdod, a'r camau nesaf
- Adolygiad o'r Codau Ymarfer
- Adroddiad Sganio'r Gorwel 2025/26

Cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn, ac mae un o'r cyfarfodydd hyn ar agor i unrhyw aelodau o'r cyhoedd arsylwi arno drwy ffrwd fyw gan ddefnyddio Teams. Yn 2025/26, ein cyfarfod ym mis Mehefin oedd y cyfarfod hwn.

Gweithdai a chyfarfodydd anffurfiol

Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfod strategaeth anffurfiol ym mis Gorffennaf, yn dilyn cyhoeddi adroddiad terfynol Syr Jonathan Michael. Cynhaliodd hefyd gyfarfod effeithiolrwydd a strategaeth anffurfiol ym mis Tachwedd a sesiwn friffio ar Lywodraethu Gwybodaeth a'r Fframwaith Seiberasesu (CAF), ym mis Ionawr. Cynhelir sesiynau datblygu a thrafod anffurfiol hefyd ar ôl pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i'r safonau llywodraethu corfforaethol uchaf ac, yn unol ag arferion da, mae'n adolygu ei effeithiolrwydd bob blwyddyn. Yn ystod Chwarter 4 2025/26, aeth Swyddfa Breifat yr Awdurdod ati, dan oruchwyliaeth Cadeirydd yr Awdurdod, i gynnal Adolygiad cyffyrddiad ysgafn o Effeithiolrwydd y Bwrdd. Ffocws yr adolygiad oedd dynameg y Bwrdd, cydbwysedd sgiliau a phrofiad y Bwrdd, a'r ffyrdd gorau o'u defnyddio a'u datblygu.

Cwblhaodd pob aelod o'r Bwrdd holiadur a hunanasesiad sgiliau. Mae Cadeirydd yr Awdurdod wedi ystyried y canlyniadau. Ni chodwyd unrhyw bryderon difrifol na phryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith o ran effeithiolrwydd y Bwrdd na'r Pwyllgorau yn yr adolygiad, a nododd fod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithio'n dda, ac yn cynnal cydberthynas effeithiol o her adeiladol i'r Tîm Gweithredol. Roedd yr ymarfer yn seiliedig ar ddeunydd o'r adolygiadau ar wahân a gynhaliwyd o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, dan oruchwyliaeth Cadeiryddion y Pwyllgorau hynny, gyda chyfraniadau gan yr Uwch Dîm Rheoli a ffynonellau eraill. Gyda'i gilydd, mae'r holl wybodaeth hon wedi cynnig sail i Gynllun Gweithredu'r Arolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod (2026/27) er mwyn cynnal arferion da sy'n bodoli eisoes a'u datblygu ymhellach.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Er mwyn helpu ein Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau, caiff ei gefnogi gan ddau Bwyllgor – y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae'r Pwyllgor hwn yn cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ynghylch trefniadau rheoli risg, llywodraethu corfforaethol, a sicrwydd. Mae'n cynnwys pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol. Caiff unigolion o Dîm Noddwr yr Awdurdod yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) eu gwahodd yn rheolaidd i fynd i gyfarfodydd y pwyllgor.

Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a KPMG, sef archwilwyr allanol yr Awdurdod, hefyd yn bresennol ym mhob cyfarfod. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.
Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cytuno ar y cynllun archwilio mewnol blynyddol. Caiff y cynllun ei ddylunio i adolygu gwahanol feysydd y busnes mewn modd systematig a rhoi sicrwydd i'r tîm gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod unrhyw wendidau a nodir mewn rheolaethau yn cael sylw ac yn cael eu hatgyfnerthu.
Caiff y pwyllgor sesiynau preifat gyda'r darparwr archwilio mewnol, sef GIAA, a'r archwilwyr allanol, sef KPMG a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, heb i swyddogion gweithredol yr Awdurdod fod yn bresennol. Gall yr archwilwyr mewnol ac allanol gysylltu'n uniongyrchol â chadeirydd y pwyllgor os byddant yn dymuno codi unrhyw beth nad ydynt yn teimlo y byddai'n briodol ei godi'n uniongyrchol â'r tîm gweithredol.
Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, cafodd gwasanaethau archwilio mewnol eu darparu gan GIAA. Mae tîm GIAA yn gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, ac roedd y cynllun archwilio mewnol yn cynnwys y pum adolygiad canlynol.

- Archwiliad o'r Fframwaith Seiberasesu
- Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol
- Archwiliad o'r Broses o Gymhwyso Amrywiadau i Drwyddedau
- Archwiliad Rheoli'r Gyllideb
- Archwiliad Rheoli Rhanddeiliaid

Ni dderbyniwyd 3 argymhelliad yn yr archwiliad Llywodraethu Corfforaethol.

Maes busnes	Graddau sicrwydd	Argymhellion a wnaed		
		Uchel	Canolig	Isel
Fframwaith Seiberasesu	Cymedrol	0	3	0
Llywodraethu corfforaethol	Sylweddol	0	1	3
Cymhwyso Amrywiadau i Drwyddedau	Sylweddol	0	0	1
Rheoli'r Gyllideb	Sylweddol	0	0	0
Rheoli Rhanddeiliaid	Cymedrol	0	3	3
Cyfanswm yr argymhellion		**0**	**7**	**7**

Gweithgareddau'r Pwyllgorau

Mae gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, a gwnaeth y pwyllgor ddyrannu ei amser yn 2025/26 i'r pynciau allweddol canlynol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Adroddiadau Sicrwydd Archwilio Mewnol
- Ystyried Darpariaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2026-2027
- Olrhain camau gweithredu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Adroddiadau Archwilio Allanol
- Diweddariad ar Risgiau ac Adolygiad o'r Gofrestr Risg Strategol

- Adroddiadau Seiberddiogelwch, a diweddariadau ar y Fframwaith Seiberasesu
- Diweddariad Iechyd a Diogelwch
- Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth
- Buddiannau, Rhoddion, a Lletygarwch.
- Adroddiadau ar gwynion, anghydfodau, twyll a gwybodaeth arall
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Adroddiad SIRO
- Adolygiad Effeithiolrwydd ARAC
- Cylch Gorchwyl ARAC

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Rôl ffurfiol y Pwyllgor hwn yw cytuno ar y dull o ymdrin â chydnabyddiaeth staff ac Uwch-reolwyr ar ran y Bwrdd, a hynny o fewn y fframwaith a bennwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel fforwm ar gyfer cymorth anffurfiol a seinfwrdd i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â diwylliant ehangach a materion yn ymwneud â phobl, gan gynnwys Strategaeth Pobl yr Awdurdod.
Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth deirgwaith yn ystod 2025/26. Cytunodd ar ddyraniad dyfarniadau cyflog cyfunol staff ar gyfer 2025/26 o fewn y fframwaith a bennwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol; cafodd ddiweddariadau ar y ffordd y caiff Gwasanaethau Adnoddau Dynol a Rennir eu darparu a data ac ystadegau Adnoddau Dynol; ac adolygodd gynnydd yn erbyn Strategaeth Pobl yr Awdurdod.

Llywodraethu Corfforaethol

Mae gennym Gytundeb Fframwaith â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n diffinio'r elfennau hollbwysig o'n cydberthynas â hi fel corff hyd braich. Mae'r cytundeb yn amlinellu'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn cyflawni ein cyfrifoldebau atebolrwydd yn effeithiol. Mae'r Uwch-noddwr Adrannol yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal cyfarfod atebolrwydd ffurfiol â'r Prif Swyddog Gweithredol bob chwarter ac yn cyfarfod yn anffurfiol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Uwch-noddwr Adrannol hefyd yn cyfarfod â'r Cadeirydd yn rheolaidd ac yn cytuno ar yr amcanion blynyddol ac yn monitro'r ffordd y cânt eu cyflawni. Hefyd, mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn cyfarfod â Thimau Noddwr eraill yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol bob chwarter, ac yn ôl y gofyn wrth i faterion godi. Mae cynrychiolwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn bresennol fel arsylwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Nodir yr amcanion gweithredol sy'n ein helpu i gyflawni ein strategaeth gorfforaethol yn ein Cynllun Busnes blynyddol. Cymeradwyir y ddogfen hon gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chaiff gwybodaeth fonitro ei chyflwyno iddynt bob chwarter. Ynghyd â chyfarfodydd ffurfiol â'r Uwch-noddwr Adrannol a swyddogion eraill, mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ein bod ar y trywydd cywir o ran cyflawni ein hamcanion.

Mae ein system o lywodraethu corfforaethol yn cydymffurfio â gofynion ‘Corporate governance in central Government departments: code of good practice,’ i'r graddau y maent yn berthnasol i gyrff hyd braich. Ei nod yw sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol o faterion gweithredol gan ein Bwrdd

a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a hefyd sicrhau atebolrwydd clir a systemau rheolaeth fewnol ar lefel weithredol ar yr un pryd. Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â darpariaethau'r cod ac eithrio'r canlynol:

- 2.5, 2.10, 3.6, 4.3-4.5, 5.15 – yn lle'r Pwyllgor Enwebiadau, caiff y swyddogaethau eu cyflawni gan yr Adrannau sy'n penodi (mewn perthynas â chyfarwyddwyr anweithredol) a chan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Awdurdod.
- 4.7 – yn lle'r Ysgrifennydd Parhaol, mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn.
- 4.11 – yn lle Ysgrifennydd y Bwrdd, mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod ac Arweinydd y Swyddfa Breifat yn gyfrifol.
- 5.2 – Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am gymeradwyo'r datganiad llywodraethu i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- 5.5 – Dim ond cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a fynychir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.
- 5.11 – Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi'i sefydlu fel pwyllgor cynghori, a rhoddodd y Bwrdd awdurdod iddo wneud penderfyniadau drwy eithriad.

Rheoli Perfformiad

Rydym yn gweithredu dull Rheoli Portffolio cynhwysfawr ar gyfer Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad, sy'n gysylltiedig â'r maes llafur arfer gorau ar gyfer Rheoli Portffolios. Mae hyn yn ein galluogi i ddangos ein cyflawniadau yn erbyn ein hamcanion a'n cynlluniau datganedig mewn ffordd dryloyw. Rydym yn atebol i'r Bwrdd a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ein perfformiad bob chwarter. Mae'r wybodaeth a ddefnyddir gennym i ddangos ein perfformiad ar gael yn yr adran “Authority Meetings” ar ein gwefan.

Mae ein hadroddiadau perfformiad Rheoli Portffolio, sy'n eiddo i'r Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol, yn destun craffu trylwyr a chynhelir y gwaith craffu hwn ar wahanol lefelau o fanylder fel y bo'n briodol ar gyfer y fforwm lle cânt eu hystyried, gan gynnwys gan ein Tîm Cyflawni Busnes, ein Uwch Dîm Rheoli Portffolio misol (Bwrdd Portffolio), ein Bwrdd ac yn y pen draw yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ansawdd y data a ddefnyddir gan y Bwrdd

Mae'r papurau y mae'r Bwrdd (a'i Bwyllgorau) yn dibynnu arnynt yn destun proses sicrwydd mewnol gynhwysfawr a oruchwylir gan yr aelod perthnasol o'r Uwch Dîm Rheoli. Mae adborth gan aelodau o'r Bwrdd, a'r adolygiad blynyddol o'r Pwyllgorau yn awgrymu bod y papurau o ansawdd a chywirdeb da.

Fframwaith rheoli risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn rhoi barn annibynnol a gwrthrychol ar y trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae'n cynghori'r Bwrdd ar gydgysylltu a blaenoriaethu prosesau rheoli risg ym mhob rhan o'r Awdurdod ac ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.
Diben y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg. Felly, mae'n rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch effeithiolrwydd, nid sicrwydd llwyr. Mae'n seiliedig ar adolygiad parhaus o brosesau sydd â'r nod o ganfod a blaenoriaethu risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni nodau ac amcanion y sefydliad.

Mae ein polisi rheoli risg yn diffinio risg, yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau am reoli risgiau, ac yn esbonio sut y caiff risgiau eu categoreiddio, eu hasesu, eu huwchgyfeirio a'u hisgyfeirio. Mae'n defnyddio'r matrics sgorio risg 5x5 yn unol â chanllawiau Trysorlys EF (Y Llyfr Oren).

Parodrwydd i fentro

Y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli risg, gan gynnwys penderfyniadau sy'n effeithio ar ein proffil risg. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r polisi rheoli risg ac yn penderfynu ar y parodrwydd i fentro (y graddau y byddem yn goddef risgiau hysbys, yn gyfnewid am y manteision a ddisgwylir o weithred benodol neu gyfres benodol o weithredoedd).

Ym mhob un o'i gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r gofrestr risg strategol ac yn cael trafodaeth fanwl am unrhyw un o'r risgiau strategol.
Mae'r cyfarwyddwyr, ar y cyd â'u timau, hefyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff risgiau yn eu cyfarwyddiaethau eu rheoli'n unol â'n polisi rheoli risg – mae hyn yn cynnwys canfod risgiau, eu hasesu, a diweddaru cofrestri risg gweithredol a gaiff eu monitro gan y Tîm Cyflawni Busnes.
Mae'r Tîm Cyflawni Busnes yn adolygu cofrestri risg gweithredol yn rheolaidd ac yn uwchgyfeirio risgiau y mae eu lefelau bygythiad yn cynyddu at yr Uwch Dîm Gweithredol er mwyn ystyried eu cynnwys yn y gofrestr risg strategol.

Mae manylion ein risgiau strategol allweddol i'w gweld yn yr adroddiad ar berfformiad ar dudalennau 15-18.

Llywodraethu gwybodaeth

Mae gennym strwythur llywodraethu gwybodaeth sefydledig:

- Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yw'r Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am y system ar gyfer diogelu ac amddiffyn gwybodaeth bersonol y mae modd adnabod unigolion ohoni, data cyfrinachol a data sy'n sensitif o safbwynt corfforaethol.
- Mae gan yr Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth rôl ddeuol o fewn yr Awdurdod, sef yr Arweinydd Rheoli Cofnodion a Llywodraethu Gwybodaeth a'r Swyddog Diogelu Data.
- Y Cyfarwyddwr Data, Technoleg a Datblygu yw ein Gwarcheidwad Caldicott a'n Huwch-swyddog Cyfrifol.
- Y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yw'r Perchnogion Asedau Gwybodaeth lle bo hynny'n berthnasol
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cyflawni rôl Hyrwyddwr Rhyddid i Godi Llais ar gyfer yr Awdurdod, gan gefnogi diwylliant agored a darparu pwynt annibynnol ar gyfer uwchgyfeirio.

Mae fframwaith ar waith sy'n dod â'r holl bolisïau, gweithdrefnau a rheolaethau ynghyd, gan gynnwys:

- Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd
- Polisi Rheoli a Chadw Cofnodion
- Polisi Rhyddid Gwybodaeth
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Canllawiau ar Hawliau Gwybodaeth Unigol

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r uwch-reolwyr yn derbyn diweddariadau llywodraethu gwybodaeth rheolaidd, gyda hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu i gynnal

lefelau uchel o ymwybyddiaeth. Mae risgiau gwybodaeth berthnasol yn cael eu cofnodi mewn cofrestri risg gweithredol, a gaiff eu hadolygu bob mis yn ystod cyfarfodydd y Tîm Cyflawni Busnes.

I atgyfnerthu ein seiberwydnwch, rydym wedi recriwtio Rheolwr Seiberddiogelwch a Chydymffurfiaeth TG. Rydym hefyd yn cyflwyno dangosfwrdd seiberddiogelwch cynhwysfawr i ARAC ym mhob cyfarfod, gan roi sicrwydd bod rheolaethau seiberddiogelwch digonol ar waith i atal bygythiadau i ddiogelwch gwybodaeth.

Caiff risgiau i ddiogelwch data eu rheoli a'u monitro o fewn y fframwaith rheoli risg cyffredinol, sef Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EF.
Caiff achosion o dor data personol eu goruchwylio gan yr Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth, a chaiff yr holl risgiau eraill i ddiogelwch data, ac eithrio data personol, eu rheoli gan y Pennaeth TG er mwyn sicrhau y caiff bygythiadau i ddiogelwch eu holrhain ac y cânt eu rheoli'n briodol. Rydym yn ymrwymedig i atgyfnerthu rheolaethau seiberddiogelwch drwy'r Fframwaith Seiberasesu a Safonau Diogelwch Data'r Gwarcheidwad Data Cenedlaethol.

Mae unrhyw ddata a gofnodir ar blatfformau digidol a phlatfformau ffisegol yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau deddfwriaethol penodol, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae mynediad defnyddwyr yn seiliedig ar egwyddor y fraint leiaf, a rhoddir mynediad yn seiliedig ar ofynion i gyflawni'r rôl. Cynhelir hapwiriadau gan ddefnyddio TG a detholiad o staff a ddewisir ar hap drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwiriadau hyn yn cymharu'r setiau caniatâd disgwyliedig yn erbyn y sefyllfa wirioneddol er mwyn sicrhau na chaiff pobl y caniatadau anghywir. Ymdrinnir â cheisiadau am wybodaeth drwy gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
Mae'n rhaid cael cytundeb yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth i unrhyw ofynion gweithredol i wyro oddi wrth bolisi diogelwch yr Awdurdod o ran diogelwch data.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, ymchwiliwyd i 3 achos o dorri diogelwch data personol y cafwyd gwybod amdanynt, nad ystyriwyd bod yr un ohonynt yn ddigon difrifol i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano. Mae adroddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y cyfarfod ym mis Mehefin yn cynnwys gwybodaeth am achosion o dorri diogelwch data ar gyfer 2025/26.

Mae'n ofynnol i bob cyflogai gwblhau'r modiwlau hyfforddiant gorfodol blynyddol canlynol 'Diogelwch Gwybodaeth' a 'Cyfrifoldebau o dan GDPR' er mwyn diogelu gwybodaeth. Lefel cydymffurfiaeth y staff â'r hyfforddiant ym mis Mawrth 2026 oedd 85% a 92% (Mawrth 2025: 90% a 76%) yn y drefn honno.

Mae'r Pecyn Cymorth Diogelu ac Amddiffyn Data (DSPT), sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Seiberasesu (CAF), yn cynnwys 5 Amcan, 18 o Egwyddorion, a 46 o Ganlyniadau Cyfrannol, gan gynnwys 12 o ganlyniadau gorfodol y mae'n rhaid i sefydliad sy'n cwblhau asesiad sy'n seiliedig ar y Fframwaith ddangos tystiolaeth ohonynt.

Ar gyfer cylch Pecyn Cymorth 2025/26 (f7) a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cyflawnodd yr Awdurdod ddyfarniad cyffredinol a oedd yn dangos ei fod yn agos at gyrraedd y

safonau, gyda dau ganlyniad cyfrannol heb eu cyflawni:

- A3.a – Rheoli Asedau
- E4.a – Rheoli Cofnodion

Tynnwyd sylw at y meysydd hyn fel meysydd yr oedd angen gwaith ychwanegol arnynt ac fe'u nodwyd fel eitemau blaenoriaeth i'w gwella.

Rydym wrthi'n ymdrin â'r ddau ganlyniad nas cyflawnwyd drwy raglen waith Rheoli a Chadw Cofnodion aml-flwyddyn.

Atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth

Gwneir cyflwyniadau chwarterol i Uned Atal Twyll yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unol â safon swyddogaethol atal twyll y llywodraeth GovS 013. Rydym yn cynnal cyfres o bolisïau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i atal, canfod a chynnal dull dim goddefgarwch mewn perthynas ag afreoleidd-dra ariannol.

Er mwyn rheoli'r risg o lwgrwobrwyo, mae'r sefydliad yn cynnal Cofrestr Buddiannau a Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch, gan sicrhau tryloywder ym mhob cysylltiad proffesiynol. Mae hyfforddiant Gwrth-dwyll a Gwrth-lwgrwobrwyo yn parhau i fod yn ofyniad gorfodol i bob aelod o staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau adrodd a sut i nodi rhybuddion.

Mae ein rheolaethau ariannol yn cynnwys prosesau llym ar gyfer gwahanu dyletswyddau a phrosesau dilysu cadarn ar gyfer newidiadau i fanylion banc cyflenwyr er mwyn lliniaru'r risg o dwyll mandad.

Ni nodwyd unrhyw golledion yn sgil twyll yn 2025/26. Rydym yn aelodau gweithredol o'r Grŵp Cyswllt Gwrth-dwyll i Gyrff Hyd Braich, sy'n hwyluso cyfleoedd i rannu arferion gorau ac yn darparu mynediad at arbenigedd ar gyfer ymchwiliadau os oes angen.

Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth

Mae 14 o Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth, y mae 12 ohonynt yn gymwys i'r Awdurdod. Fel y cytunwyd gyda'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, rydym yn bwriadu ceisio cydymffurfio â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth mewn modd sy'n gymesur i sefydliad o'n maint ni. Fel rhan o gylch asesu blynyddol 2025/26, rydym wedi cwblhau'r 5 argymhelliad archwilio y cytunwyd arnynt gyda GIAA mewn perthynas â'i harchwiliad mewnol o'n dull gweithredu yn 2024/25, gan gynnwys symud i'r model hunanasesu Da / Gwell / Gorau ac ychwanegu gwiriadau sicrhau ansawdd gwrthrychol o'r hunanasesiadau. Gallwn gadarnhau fod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau Swyddogaethol gofynnol y Llywodraeth.

Chwythu'r chwiban

Caiff ein staff eu hannog i ddweud eu barn a chodi unrhyw bryderon os bydd rhywbeth yn teimlo neu'n edrych yn anghywir. Mae ein gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon yn hygyrch i'r holl staff. Rydym yn cynnig sawl opsiwn i'r staff godi pryderon ar bob lefel o'r sefydliad, ac rydym hefyd yn eu hannog i ddefnyddio llinellau cymorth chwythu'r chwiban allanol. I gefnogi'r polisi chwythu'r chwiban, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn Hyrwyddwr Rhyddid i Godi

Llais.

Pensiynau

Fel cyflogwr staff sydd â'r hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae gennym fesurau rheolaeth ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â holl rwymedigaethau'r cyflogwr o dan reoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r cynllun yn digwydd yn unol â'r rheolau, a bod cofnodion aelodau o'r cynllun pensiwn yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r terfynau amser a nodir yn y rheoliadau.

Archwilio Mewnol

Yn 2025/26, rhoddodd y tîm Archwilio Mewnol sicrwydd ynghylch gweithgareddau busnes craidd yr Awdurdod, gan gynnal adolygiadau unigol o feysydd risg gweithredol ac ariannol a meysydd risg eraill, oll wedi'u llywio gan asesiadau risg yr Awdurdod a barn annibynnol ar ein proffil risg. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gwbl seiliedig ar p'un a yw'r rheolaethau sydd ar waith yn helpu i gyflawni amcanion y rheolwyr fel y'u nodir yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2025/26 ac Adroddiadau Aseiniad unigol.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi ei barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r sefydliad i'r Swyddog Cyfrifyddu.
Mae'r farn hon yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwaith y bydd y tîm Archwilio Mewnol wedi'i wneud drwy gydol y flwyddyn adrodd. Nid oes unrhyw gyfyngiadau amhriodol wedi bod ar gwmpas y gwaith archwilio mewnol ac mae'r lefel briodol o adnoddau wedi bod ar waith er mwyn galluogi'r swyddogaeth i gwblhau'r gwaith a gynlluniwyd yn foddhaol.
I grynhoi, barn gymedrol oedd y farn gyffredinol a roddwyd i'r Swyddog Cyfrifyddu.

Casgliad y Swyddog Cyfrifyddu

Nod y trefniadau llywodraethu a nodir yn y datganiad hwn yw helpu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol i feithrin cymaint o ddealltwriaeth â phosibl a defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael am ansawdd ac effeithiolrwydd ein systemau, i'n helpu i wella gwasanaethau a bodloni gofynion sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol.
Yn seiliedig ar fy adolygiad, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broblemau sylweddol yn ymwneud â rheolaeth, ac rwy'n fodlon bod trefniadau priodol ar waith i gyflawni'r holl swyddogaethau statudol y mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn gyfrifol amdanynt. I grynhoi, rwy'n fodlon bod y fframwaith llywodraethu, y prosesau rheoli risg a'r system reolaeth fewnol yn ddigonol a'u bod wedi cael eu cynnal yn effeithiol drwy gydol 2025/26.

Yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

Mae'r adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff yn rhoi manylion am gydnabyddiaeth (gan gynnwys unrhyw gydnabyddiaeth anariannol) a buddiannau pensiwn Aelodau'r Bwrdd a'r cyfarwyddwyr sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd.

Cydnabyddiaeth uwch-staff

Pennir cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae cyflogau'r staff a gyflogir ar amodau a thelerau gwasanaeth yr Awdurdod yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
Mae cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r holl uwch-reolwyr gweithredol yn destun gwerthusiad swydd annibynnol yn gyntaf, yna caiff ei chymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Awdurdod gyda goruchwyliaeth lywodraethu ychwanegol gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a Phwyllgor Cydnabyddiaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer unrhyw gyflog a oedd yn fwy na £174,000 (cyn Gorffennaf 2025, y terfyn oedd £150,000). Nodir cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol a'r uwch-reolwyr yn y tabl ar dudalennau 42-44.
Mae aelodaeth a gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar dudalen 30.

Arfarnu perfformiad

Cytunir ar broses o bennu amcanion personol sy'n cyd-fynd â'r cynllun busnes â phob aelod o'r staff bob blwyddyn ac mae'r holl staff yn cael arfarniad blynyddol o berfformiad.

Polisi ar hyd contractau, cyfnodau rhybudd a thaliadau terfynu

Telerau ac amodau: cyfarwyddwyr anweithredol a'r cadeirydd
Nodir isod delerau ac amodau'r cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol.

Sail statudol dros benodi
Mae Cadeirydd a Chyfarwyddwyr Anweithredol Cyrff Cyhoeddus Anadrannol yn y sector iechyd yn dal swydd statudol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Nid yw eu penodiad yn creu unrhyw gontract am wasanaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol na'r Awdurdod.

Cyfraith cyflogaeth
Nid yw penodiadau cadeirydd na chyfarwyddwyr anweithredol yr Awdurdod o fewn awdurdodaeth tribiwnlysoedd cyflogaeth. Nid oes unrhyw hawl ychwaith i dâl digolledu mewn perthynas â cholli swydd drwy gyflogaeth.

Ailbenodiadau
Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gymwys i gael eu hailbenodi ar ddiwedd eu cyfnod cyfredol mewn swydd, sef tair blynedd, ond nid oes ganddynt hawl i gael eu hailbenodi. Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn llunio barn ynglŷn â phwy y dylid ei benodi/phenodi i'r swydd.

Terfynu penodiad
Gall Cadeirydd neu Gyfarwyddwr Anweithredol ymddiswyddo drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd ei benodiad yn cael ei derfynu ar y dyddiad a nodwyd yn ei lythyr penodi oni chaiff ei derfynu'n gynharach yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.

Cydnabyddiaeth
O dan y Ddeddf, mae gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yr hawl i gael cydnabyddiaeth gan yr Awdurdod tra byddant yn dal swydd. Nid oes angen darpariaeth yng nghyfrifon blynyddol yr Awdurdod ar gyfer terfynu penodiad unrhyw Gyfarwyddwr Anweithredol yn gynnar.

Gwrthdaro buddiannau
Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet yn gymwys i fyrddau cyrff cyhoeddus anadrannol. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Gadeiryddion ac Aelodau Bwrdd ddatgan, ar adeg eu penodiad, unrhyw fuddiannau busnes, rolau ag awdurdod mewn elusen neu gorff gwirfoddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac unrhyw gysylltiad â chyrff sy'n contractio am wasanaethau'r GIG. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu cofnodi ar gofrestr buddiannau'r Awdurdod, sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai unrhyw newidiadau gael eu datgan wrth iddynt godi.

Telerau ac amodau Tîm Gweithredol yr Awdurdod
Sail dros benodi
Penodir pob cyfarwyddwr gweithredol a chyfarwyddwyr eraill sy'n aelodau o'r tîm gweithredol ar sail barhaol o dan gontract gwasanaeth ar gyflog blynyddol y cytunwyd arno. Byddant yn gymwys i hawlio lwfansau am gostau teithio a chynhaliaeth, ar gyfraddau a bennir gan yr Awdurdod, ar gyfer treuliau yr eir iddynt ar ei ran. Gellir gwneud penodiadau dros dro pan fydd swyddi'n wag neu am resymau gweithredol eraill, gan gytuno ar drefniadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth. Ni wnaed unrhyw benodiadau dros dro yn 2025/26.

Terfynu penodiad
Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r tîm gweithredol roi tri mis o rybudd eu bod yn terfynu eu contract. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau digolledu yng nghyfrifon blynyddol yr Awdurdod ar gyfer terfynu contract gwasanaeth unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn 2025/26.

Telerau ac amodau staff yr Awdurdod
Mae'r Awdurdod yn darparu ar gyfer cynyddu cyflogau cyffredinol y staff bob blwyddyn ym mis Awst ac fel arfer caiff cyflogau uwch-aelodau gweithredol eu hôl-ddyddio i fis Ebrill. Bydd unrhyw

gynnydd yn unol â chanllawiau tâl Trysorlys EF a chânt eu cymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Awdurdod a chan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth – cydnabyddiaeth i aelodau'r Bwrdd a'r cyfarwyddwyr (yn amodol ar archwiliad).

Bwrdd		2025/26					2024/25				
Enw	**Teitl**	**Cyflogau a lwfansau (bandiau o £5,000)**	**Cyfanswm y buddiannau trethadwy i'r £100 agosaf**	**Tâl perfformiad a bonysau (bandiau o £5,000)**	**Buddiannau Pensiwn i'r £1,000 agosaf**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000)**	**Cyflogau a lwfansau (bandiau o £5,000)**	**Cyfanswm y buddiannau trethadwy i'r £100 agosaf**	**Tâl perfformiad a bonysau (bandiau o £5,000)**	**Buddiannau Pensiwn i'r £1,000 agosaf**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000)**
		£'000	**£**	**£'000**		**£'000**	**£'000**	**£**	**£'000**		**£'000**
Lynne Berry	Cadeirydd	40-45	0	0	0	40-45	40-45	200	0	0	40-45
Yr Athro Gary Crowe[1]	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn10-15)	500	0	0	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn10-15)	10-15	2,500	0	0	10-15
David Stanton [2]	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn10-15)	0	0	0	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn10-15)	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
David Lewis [2]	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15)	1,300	0	0	10-15 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15)	5-10	1,600	0	0	5-10
Mhairi Spurr (Mhairi Anderson gynt)	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10	900	0	0	5-10	5-10	1,800	0	0	5-10
Tom Chakraborti [3]	Cyfarwyddwr Anweithredol	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	5-10	100	0	0	5-10
Helen Froud [4]	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10)	2,400	0	0	10-15 (Cyfwerth â blwyddyn lawn10-15)	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Helen Dodds [3]	Cyfarwyddwr Anweithredol	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	5-10	300	0	0	5-10
Ellen Donovan	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10	1,200	0	0	10-15	5-10	1,600	0	0	5-10
Andy Greenfield	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10	200	0	0	5-10	5-10	400	0	0	5-10
Nicole Lappin [5]	Cyfarwyddwr Anweithredol	0-5 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10)	1,100	0	0	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn10-15)	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G

Bwrdd		2025/26					2024/25				
Enw	Teitl	Cyflogau a lwfansau (bandiau o £5,000)	Cyfanswm y buddiannau trethadwy i'r £100 agosaf	Tâl perfformiad a bonysau (bandiau o £5,000)	Buddiannau Pensiwn i'r £1,000 agosaf	Cyfanswm (bandiau o £5,000)	Cyflogau a lwfansau (bandiau o £5,000)	Cyfanswm y buddiannau trethadwy i'r £100 agosaf	Tâl perfformiad a bonysau (bandiau o £5,000)	Buddiannau Pensiwn i'r £1,000 agosaf	Cyfanswm (bandiau o £5,000)
		£'000	£	£'000		£'000	£'000	£	£'000		£'000
David Lock	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10	0	0	0	5-10	5-10	100	0	0	5-10
Jessica Watts	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10	400	0	0	5-10	5-10	500	0	0	5-10
Gina Radford [4]	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10)	400	0	0	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10)	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Steve Stanbury [4]	Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10)	700	0	0	5-10 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10)	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G

[1] Gary Crowe oedd Cadeirydd ARAC hyd nes iddo adael y Bwrdd ar 31 Awst 2025 ac roedd yn cael cyfradd cydnabyddiaeth uwch.
[2] David Stanton oedd Cadeirydd ARAC o 1 Medi 2025 hyd nes iddo adael y Bwrdd ar 31 Ionawr 2026, pan ddaeth David Lewis yn ei le. Cafodd y ddau gyfradd cydnabyddiaeth uwch.
[3] Gadawodd Tom Chakraborti a Helen Dodds ar 31 Mawrth 2025
[4] Ymunodd Helen Round, Gina Radford, a Steve Stanbury ar 21 Ebrill 2025
[5] Ymunodd Nicole Lappin ar 19 Medi 2025

Cyfarwyddwyr		2025/26					2024/25				
Enw	Teitl	Cyflogau a lwfansau (bandiau o £5,000)	Cyfanswm y buddiannau trethadwy i'r £100 agosaf	Tâl perfformiad a bonysau (bandiau o £5,000)	Buddiannau Pensiwn i'r £1,000 agosaf	Cyfanswm (bandiau o £5,000)	Cyflogau a lwfansau (bandiau o £5,000)	Cyfanswm y buddiannau trethadwy i'r £100 agosaf	Tâl perfformiad a bonysau (bandiau o £5,000)	Buddiannau Pensiwn i'r £1,000 agosaf	Cyfanswm (bandiau o £5,000)
		£'000	£	£'000		£'000	£'000	£	£'000		£'000
Dr Colin Sullivan	Prif Swyddog Gweithredol	135-140	100	0	37,000	175-180	135-140	200	05-10	35,000	175-180
Louise Dineley	Cyfarwyddwr	115-120	200	0	52,000	165-170	110-115	0	0	6,000	115-120
Nicolette Harrison	Cyfarwyddwr	115-120	0	0	34,000	150-155	110-115	0	0	31,000	140-145
Katrina Leighton-Hearn [1]	Cyfarwyddwr	80-85 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 110-115)	100	0	11,000	90-95 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 120-125)	20-25 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 105-110)	0	0	12,000	30-35 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 115-120)
Katherine Towner [2]	Cyfarwyddwr Dros Dro	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	30-35 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 210-215)	Dd/G	Dd/G	Dd/G	30-35 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 210-215)
Tom Skrinar [3]	Cyfarwyddwr	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	30-35(Cyfwerth â blwyddyn lawn 90-95)	0	0	99,000	185-190
John McDermot	Dirprwy Gyfarwyddwr	95-100	400	0	29,000	120-125	90-95	400	0	27,000	115-120

[1] Ymunodd Katrina Leighton-Hearn yn rhan amser ar 1 Rhagfyr 2024

[2] Cyflogwyd Katherine Towner fel Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dros Dro yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2 drwy asiantaeth

[3] Roedd Tom Skrinar yn gweithio 0.5 cyfwerth ag amser llawn ac yn gweithio ar secondiad i'r Awdurdod. Cafodd y secondiad ei derfynu ar 31/12/2024

COSTAU PENSIWN

Caiff cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol eu cwmpasu gan ddarpariaethau Cynlluniau Pensiwn y GIG. Mae manylion y buddiannau sy'n daladwy a rheolau'r cynlluniau ar wefan Pensiynau'r GIG yn www.nhsbsa.nhs.uk/pensions. Cyfrifir am gynlluniau 1995/2008 a 2015, a chaiff y cynllun ei fesur o ran rhwymedigaeth, fel cynllun cyfun unigol. Mae'r naill a'r llall yn gynlluniau buddiannau diffiniedig nas ariennir sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Nid ydynt wedi'u cynllunio i gael eu rhedeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i nodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun. Felly, cyfrifir am bob cynllun fel petai'n gynllun cynllun cyfraniadau diffiniedig: ystyrir bod cost cymryd rhan ym mhob cynllun i gorff y GIG yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun hwnnw ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

Er mwyn sicrhau nad yw rhwymedigaethau'r buddiannau diffiniedig a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn wahanol mewn ffordd berthnasol i'r rhai a fyddai'n cael eu pennu ar y dyddiad adrodd gan brisiad actwraidd ffurfiol, o dan y Llawlyfr Adrodd Ariannol mae'n ofynnol “the period between formal valuations shall be four years, with approximate assessments in intervening years”.

Mae amlinelliad o'r rhain yn dilyn:

a) Prisiad cyfrifyddu

Mae prisiad o rwymedigaeth cynllun yn cael ei gynnal bob blwyddyn gan actiwari'r cynllun (sef Adran Actiwari'r Llywodraeth ar hyn o bryd) fel y mae ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae hyn yn defnyddio asesiad actiwaraidd ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu blaenorol ar y cyd â data wedi'u diweddaru ar aelodaeth a data ariannol ar gyfer y cyfnod adrodd cyfredol a derbynnir ei fod yn rhoi ffigurau cadarn addas at ddiben adrodd ariannol. Mae prisiad rhwymedigaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2026, yn seiliedig ar ddata prisio ar 31 Mawrth 2024, wedi'u diweddaru i 31 Mawrth 2026 â data cyffredinol cryno am aelodau a data cyfrifyddu. Wrth gynnal yr asesiad actiwaraidd hwn, mae'r fethodoleg a ragnodwyd yn IAS 19, sy'n berthnasol i ddehongliadau perthnasol y Llawlyfr Adrodd Ariannol, a'r gyfradd ddisgowntio a ragnodwyd gan Drysorlys EF hefyd wedi cael eu defnyddio.

Ceir yr asesiad diweddaraf o rwymedigaethau'r cynllun yn y Datganiad gan yr Actiwari, sy'n rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn y GIG. Gellir gweld y cyfrifon hyn ar wefan Pensiynau'r GIG a chânt eu cyhoeddi'n flynyddol. Mae copïau hefyd ar gael gan y Llyfrfa.

b) Prisiad (cyllido) actiwaraidd llawn

Diben y gwerthusiad hwn yw asesu lefel y rhwymedigaeth mewn perthynas â'r buddiannau sy'n ddyledus o dan y cynlluniau (gan ystyried profiad demograffig diweddar), ac argymell y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogwyr.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG ar 31 Mawrth O ganlyniad i'r prisiad hwn pennwyd cyfradd gyfrannu'r cyflogwr yn daladwy o 1 Ebrill 2024 yn 23.7% o gyflog pensiynadwy. Cyfrifwyd bod cost terfyn costau craidd y cynllun y tu allan i'r coridor terfyn costau o 3% ar 31 Mawrth 2020. Fodd bynnag, pan ystyriwyd y sefyllfa economaidd ehangach drwy gost terfyn costau economaidd y cynllun, ni thorrwyd y coridor terfyn costau yn yr un modd. O ganlyniad, nid oedd unrhyw effaith ar strwythur buddiannau aelodau na chyfraddau cyfraniadau.

Mae prisiad yr actiwari ar gyfer 2024 wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi cyn i gyfraddau cyfraniadau newydd gael eu rhoi ar waith o fis Ebrill 2027.

Buddiannau Pensiwn – Yr Uwch Dîm Rheoli (yn amodol ar archwiliad)

Swyddog	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (a)	Cynnydd gwirioneddol yng nghyfandaliad y pensiwn ar ôl cyrraedd 60 oed (b)	Cyfanswm y Pensiwn cronedig ar 31/03/26 (c)	Cyfandaliad yn 60 oed ar 31/03/2026 (d)	CETV ar 31/03/2026 (e)	Cynnydd gwirioneddol yng ngwerth CETV fel y'i hariannwyd gan y cyflogwr 2025/26	CETV ar 31/03/2025
Dr Colin Sullivan	2.5-5	0	10-15	0	207	33	155
Louise Dineley	2.5-5	2.5-5	40-45	105-110	953	54	869
Nicolette Harrison	0-2.5	0	15-20	0	326	36	271
Katrina Leighton-Hearn	0-2.5	0	15-20	0	248	9	225*
John McDermott	0-2.5	0	20-25	0	256	16	224

*Mae gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar gyfer Katrina Leighton-Hearn wedi'i ddiwygio o'r gwerth a nodwyd yn adroddiad blynyddol 2024-25, sef £37,000. Mae hyn o ganlyniad i wall trawsosod wrth baratoi datganiad y flwyddyn flaenorol

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd buddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'i gronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol (neu fuddioliwr arall a ganiateir) sy'n daladwy o'r cynllun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod yn unol ag OS 2008 Rhif 1050 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Datgeliad cyflog teg (yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n cyflwyno adroddiad ddatgelu'r berthynas rhwng cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr/aelod sy'n cael y cyflog mwyaf yn eu sefydliad yn erbyn 25ain ganradd, canolrif a 75ain ganradd cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad. Caiff cyfanswm cydnabyddiaeth y cyflogai yn y 25ain ganradd, y canolrif a'r 75ain ganradd ei ddadansoddi ymhellach i ddatgelu'r elfen cyflog.

Band cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf yn yr Awdurdod Meinweoedd

Dynol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26 oedd £135k-140k (2024/25: £180k-£185k). Roedd y gwahaniaeth blynyddol hwn gan mai am gyfnod dros dro y cyflogwyd y Cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf yn y flwyddyn flaenorol. Datgelir y berthynas â chydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad yn y tabl isod:

		Blynyddoedd ariannol	
		2025-26	2024-25
	Band cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf	£135,000 i £140,000	£180,000 i £185,000
Y 25ain Ganradd	Cyfanswm y gydnabyddiaeth	£46,575	£36,974
	Elfen cyflog	£46,200	£36,974
	Cymhareb cyfanswm y gydnabyddiaeth	2.99	4.94
Canradd ganolrifol	Cyfanswm y gydnabyddiaeth	£52,570	£50,474
	Elfen cyflog	£52,164	£50,474
	Cymhareb cyfanswm y gydnabyddiaeth	2.65	3.62
Y 75ain ganradd	Cyfanswm y gydnabyddiaeth	£58,737	£62,339
	Elfen cyflog	£55,800	£62,339
	Cymhareb cyfanswm y gydnabyddiaeth	2.37	2.93

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn nwyddau, ond nid taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, roedd taliadau cydnabyddiaeth yn amrywio o £18k i £139k (2024-25: £8k i£182k cyfwerth â blwyddyn lawn). Roedd ffigur 2024/25 yn cynnwys taliadau i gyfarwyddwyr anweithredol ac ni chafodd ei ailddatgan i'w heithrio yn dilyn newidiadau i'r FReM ar gyfer 2025/26. Mae terfyn uchaf 2024/25 yn adlewyrchu deiliadaeth byrdymor a gofnodwyd fel swm cyfwerth â blwyddyn lawn yn hytrach na'r cyflog gwirioneddol a dalwyd.

Mae gwybodaeth arall am gyflog yn cynnwys:
• Roedd pedwar cyfarwyddwr yn gymwys i gael dyfarniad cyflog o 3.25% wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2025
• Mae nifer cyfartalog ein staff wedi codi o 56.9 yn 2024/25 i 59.4 yn 2025/26
Newid canrannol yng nghydnabyddiaeth yr unigolyn a gafodd y cyflog mwyaf (yn amodol ar archwiliad)

Cyfarwyddwr	2025/26	2024/25	Newid
Canol y band cyflog a lwfansau	£137,500	£182,500	(24.7%)
Tâl perfformiad a bonysau	0	0	0%

Mae'r tabl uchod yn dangos canol band cyflog y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf a'i dâl perfformiad. Yn 2025/26, cafodd yr aelod o staff a gafodd y cyflog mwyaf ddyfarniad cyflog cyfunol. Ni thalwyd unrhyw fonysau.

Mae'r tabl isod yn dangos y newid canrannol cyfartalog mewn cyflog ar gyfer staff yr Awdurdod ers y flwyddyn ariannol flaenorol, heb gynnwys y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf.

Staff	2025/26	2024/25	Newid
Cyflogau a lwfansau	£56,293	£49,258	13%
Dyfarniad cyflog perfformiad cyfartalog	£1,426	£1,064	32.5%

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, cafodd staff yr Awdurdod ddyfarniad cyflog safonol o 3.25%-3.5% yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r dyfarniad cyflog perfformiad cyfartalog fesul CALI wedi cynyddu o £1,064 yn 2024/25 i £1,426 yn 2025/26.

Niferoedd staff a chostau cysylltiedig (yn amodol ar archwiliad)

	Staff a gyflogir yn barhaol	Aelodau'r Bwrdd	Staff dros dro	Cyfanswm 2025/26	Cyfanswm 2024/25
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	3,395	131	6	**3,532**	**3,363**
Costau nawdd cymdeithasol	460	12	0	**472**	**361**
Costau pensiwn	737	0	0	**737**	**642**
Is-gyfanswm	4,592	143	6	**4,741**	**4,366**
Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan	(18)	0	0	**(18)**	**(59)**
Cyfanswm costau net	**4,574**	**143**	**6**	**4,723**	**4,307**

Mae £6k o dan Staff dros dro yn cynrychioli'r ffi recriwtio ar gyfer penodiad tymor penodol.

Nifer cyfartalog y personau a gyflogwyd (yn amodol ar archwiliad)

Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser cyflawn a gyflogwyd (heb gynnwys cyfarwyddwyr anweithredol) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Cyflogaeth	Yn barhaol Staff a gyflogwyd	Cyfanswm 2025/26	Cyfanswm 2024/25
Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol	59.4	59.4	56.9

Yn ystod y flwyddyn, roedd un aelod o staff ar secondiad i'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol am hanner ei amser a gadawodd ym mis Mehefin 2025. Ar gyfartaledd, cyflogodd yr Awdurdod 60 o aelodau o staff yn 2025/26 (2024/25: 60).

Ni chyflogwyd unrhyw staff dros dro yn 2025/26.

Staff

Trosiant ein staff ar gyfer 2025/26 oedd 12.7%, gan gynnwys ymadawyr disgwyliedig ar gontractau tymor penodol. Heb gynnwys ymadawyr disgwyliedig, gostyngodd ein trosiant i 9.5%.

Salwch ac absenoldebau

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, cyfanswm nifer y diwrnodau cyfwerth ag amser cyflawn a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch oedd 370 (2024/25: 268 diwrnod). Cafwyd pedwar achos o salwch hirdymor, a rheolir pob achos o salwch yn unol â'n polisi Rheoli Presenoldeb. Datgelir y wybodaeth hon yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol.

Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, nid aeth yr Awdurdod i unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori (2024/25: £121,834).

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Awdurdod yn gwbl ymrwymedig i gyfle cyfartal i'n cyflogeion presennol a darpar gyflogeion. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n gweithio i'r Awdurdod neu gyda'r Awdurdod, neu sy'n gwneud cais i weithio i'r Awdurdod, gael eu trin yn deg a'u gwerthfawrogi yn yr un modd.

Mae ein gwerthoedd yn dangos yn glir ein bod yn gwbl ymrwymedig i roi cyfle cyfartal i bob aelod o'r staff. Ni chaiff unrhyw fath o wahaniaethu ar sail hil, anabledd, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, crefydd/cred, oedran, cyfeiriadedd rhywiol nac unrhyw nodwedd warchodedig arall ei oddef.

Rydym yn monitro ein perfformiad yn y maes hwn, a chaiff ystadegau ac adroddiadau eu trafod yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r rheolwyr. Rydym yn datblygu strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd i gydnabod bod cyfle a thriniaeth gyfartal yn gyfrifoldeb i bawb ac i helpu i gefnogi amgylchedd gwirioneddol gynhwysol i bawb yn yr Awdurdod.

Gwybodaeth am gydraddoldeb ar gyfer staff heb gynnwys aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2026

	31 Mawrth 2026 (nifer)	31 Mawrth 2026 (%)	31 Mawrth 2025 (nifer)	31 Mawrth 2025 (%)
Rhyw				
Benyw	39	63%	40	67%
Gwryw	23	37%	20	33%
Cyfanswm	**62**		**60**	
Dosbarthiad oedran				
18-29	1	2%	1	2%
30-39	15	24%	14	23%
40-49	21	34%	23	38%
50-59	21	34%	18	30%
60+	4	6%	4	7%
Cyfanswm	**62**		**60**	
Amser yn y swydd				

0-4 blynedd	43	69%	39	65%
5-9 mlynedd	12	20%	12	20%
10-19 blynedd	7	11%	9	15%
Cyfanswm	**62**		**60**	
Ethnigrwydd				
Asiaidd	4	6%	3	5%
Du	2	3%	4	7%
Arall	3	5%	1	2%
Gwyn	49	80%	50	83%
Heb ddatgan	2	6%	2	3%
Cyfanswm	**62**		**60**	

Anabledd

Mae gennym bolisi penodol i gefnogi penderfyniadau i gyfweld ag unrhyw ymgeisydd ag anabledd sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer swydd er mwyn darparu mwy o degwch i'r rhai ag anableddau. Rhoddir cymorth hefyd i bob aelod o'r staff sydd ag anabledd neu sy'n datblygu anabledd, gan gynnwys gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r gweithle neu brosesau gwaith a sicrhau bod cyngor ar gael drwy wneud atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol os bydd angen. Rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i gyfraith cyflogaeth ac yn diweddaru ein polisïau a'n canllawiau yn unol â hynny.
Anabledd - Datganodd 9% o staff yr Awdurdod anabledd yn 2025/26.

Datganiad o sicrwydd oddi ar y gyflogres

Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod unrhyw benodiadau sy'n para mwy na chwe mis, am fwy na chyfradd y dydd o £245, yn cynnwys darpariaethau cytundebol sy'n ein galluogi i geisio sicrwydd ynglŷn â rhwymedigaethau'r person a benodir i dalu treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac i derfynu'r contract os na roddir y sicrwydd hwnnw.
Pob penodiad newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a barodd am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis. Nid oes unrhyw aelod o'r staff wedi bodloni'r meini prawf hyn.

Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2026	0
O'u plith….	
Nifer yr aseswyd bod IR35 yn berthnasol iddynt	0
Nifer yr aseswyd nad yw IR35 yn berthnasol iddynt	0
Nifer a benodir yn uniongyrchol (drwy Gontract Sector Cyhoeddus a gontractiwyd i adran) ac sydd ar gyflogres yr adran	0
Nifer y penodiadau a ailasesir at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
Nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 yn dilyn adolygiad gan ymgynghorwyr	0

Ar gyfer unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol	0
Cyfanswm nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau bwrdd, a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol.	18

Pecynnau ymadael (yn amodol ar archwiliad) 2025/26

Ni chytunwyd ar unrhyw becynnau ymadael ac ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2025/26 (2024-25: 0).

Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

Atebolrwydd (mae'r manylion isod yn amodol ar archwiliad)

Diben yr adroddiad atebolrwydd seneddol ac archwilio yw dod â'r dogfennau atebolrwydd seneddol allweddol ynghyd yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Colledion a thaliadau arbennig

Mae colledion a thaliadau arbennig yn cyfeirio at eitemau na fyddai Senedd y DU wedi eu hystyried pan gytunodd ar gyllid ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylent godi yn ddelfrydol.
Felly, maent yn ddarostyngedig i weithdrefnau rheolaeth arbennig o'u cymharu â thaliadau cyffredin.

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig dros £300,000, naill ai'n unigol neu ar y cyd, yn 2025/26 (2024/25: dim).

Ffioedd a thaliadau a dyrannu costau

Rydym yn pennu ein ffioedd trwydded i adennill y gost lawn sy'n gysylltiedig â rheoleiddio chwe sector (Anatomeg, Post-mortem, Arddangosiadau Cyhoeddus, Ymchwil, Defnydd mewn Bodau Dynol a Rhoi a Thrawsblannu Organau).
Hefyd, caiff gwasanaethau rheoleiddio eu darparu i'r Llywodraethau Datganoledig.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r taliadau a godwyd am weithgareddau trwyddedadwy. Mae'r incwm
yn wahanol i'r hyn a geir yn y datganiadau ariannol am ei fod ond yn cynnwys incwm sy'n gysylltiedig â gweithgareddau
rheoleiddio, gan olygu nad yw'n cynnwys cymorth grant.

Ariannol Blwyddyn	Cyfanswm incwm o weithgareddau rheoleiddio	Costau a ddyrannwyd i weithgareddau trwyddedu	Gwarged/(Diffyg) ar weithgareddau
	£'000oedd	£'000oedd	£'000oedd
2025/26	**6,086**	**6,105**	**(19)**
2024/25	**5,370**	**(5,539)**	**(169)**

Hefyd, ceir elfennau o'n gwaith nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chost rheoleiddio'r chwe sector, fel cymeradwyo Rhoi Organau Byd a chefnogi'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar faterion sy'n ymwneud â pholisi.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cyfrannu at ariannu'r gweithgareddau hyn drwy ddarparu cymorth grant

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran dyrannu costau a chodi tâl fel y'u nodwyd yng nghanllawiau Trysorlys EF.

Rhwymedigaethau Dibynnol tra annhebygol

Bydd rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i endid y caiff ei bodolaeth ond ei chadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth y corff yn gyfan gwbl yn digwydd neu os na fyddant yn digwydd.

Bydd rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi dan amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Yn unol ag IAS 37, ni chaiff rhwymedigaethau dibynnol eu cydnabod yn y fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r Cyfrifon.

Nid oes unrhyw rwymedigaethau dibynnol tra annhebygol hysbys nac unrhyw rwymedigaethau dibynnol wedi'u datgelu.



Dr Colin Sullivan **13 Gorffennaf 2026**
Swyddog Cyfrifyddu

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL DAU DŶ SENEDD Y DU, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol ar gyfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifau Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ar 31 Mawrth 2026, ac o'i wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a roddwyd o dan y ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024)*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail dros fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth ynghylch gallu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif archwilio wedi hynny. Fy Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.

Rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, paratowyd y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd sy'n agored i gael eu harchwilio wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol;

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad ar Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Awdurdod Meinweoedd Dynol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad yw'r Awdurdod Meinweoedd Dynol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd digon o ffurflenni ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol sy'n berthnasol wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen arno i gynnal ei archwiliad;
- rhoi mynediad digyfyngiad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bersonau yn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol y mae'n angenrheidiol iddo gael mynediad atynt ym marn yr archwilydd er mwyn cael tystiolaeth archwilio;
- sicrhau bod y rheolaeth fewnol angenrheidiol ar waith i baratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004;

- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004;
- asesu gallu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004.

Rwy'n anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwneuthum y canlynol:

- ystyried natur y sector, rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad gweithredol yn cynnwys y ffordd roedd polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol wedi cael eu cynllunio;
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn cynnwys caffael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol mewn perthynas â:
    - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
    - canfod risgiau o dwyll ac ymateb iddynt;
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Meinweoedd Dynol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004, Managing Public Money, cyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth pensiynau;

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu a oeddent:
    - yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig;
- wedi trafod â'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr TG mewnol, sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer twyll a nodais y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, rhannu cyfnodolion anarferol a thrafodiadau cymhleth. Fel gyda phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'i fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn gweithredu yn unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a Managing Public Money a chyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth pensiynau.

Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod, gwneuthum y canlynol:

- Adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holi rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch achosion cyfreithiol a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac adroddiadau'r Awdurdod ac adroddiadau archwilio mewnol;
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau, profi priodolrwydd cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r farn a luniwyd ar amcangyfrifon yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs busnes arferol;

Gwneuthum hefyd hysbysu pob aelod o'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, am gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll, gan gadw'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Dyddiad
13 Gorffennaf 2026

Datganiadau ariannol

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y deuddeg mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodyn	**2025/26** £'000oedd	2024/25 £'000oedd
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau			
Refeniw o gontractau â chwsmeriaid	4	**(6,041)**	(5,271)
Incwm Gweithredu arall	4	**(112)**	(183)
Cyfanswm yr incwm gweithredu		**(6,153)**	(5,454)
Gwariant			
Costau staff	3.1	**4,741**	4,366
Prynu nwyddau a gwasanaethau	3	**1,289**	1,011
Gwariant gweithredu arall	3	**417**	382
Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod	3	**138**	170
Cyfanswm y gwariant gweithredu		**6,585**	5,929
Gwariant gweithredu net		**432**	475
Traul cyllid	3	**20**	6
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		**452**	481

Nid oes unrhyw eitemau o wariant y dylid eu dangos fel Gwariant Cynhwysfawr Arall. Mae pob eitem o incwm a thraul yn codi o weithgareddau parhaus.

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 66 i 85 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn	31-Maw-26 £'000oedd	31-Maw-25 £'000oedd
Asedau anghyfredol:			
Eiddo, offer a chyfarpar	5	**39**	78
Ased Hawl i Ddefnyddio	5	**350**	545
Asedau anniriaethol	6	**241**	223
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		**630**	**846**
Asedau cyfredol:			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	8	**141**	202
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	9	**4,180**	4,312
Cyfanswm yr asedau cyfredol		**4,321**	4,514
Cyfanswm asedau		**4,951**	5,360
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	10	**471**	540
Rhwymedigaethau Prydles	11	**89**	105
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		**560**	645
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		**4,391**	4,715
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Rhwymedigaethau Prydles	11	**270**	441
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		**270**	441
Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau		**4,121**	4,274
Ecwiti Trethdalwyr			
Cronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn		**4,121**	4,274
Cyfanswm yr ecwiti		**4,121**	4,274

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 66 i 85 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Llofnodwyd y datganiadau ariannol ar ran yr Awdurdod Meinweoedd Dynol gan:



Dr Colin Sullivan
Swyddog Cyfrifyddu

13 Gorffennaf 2026

Datganiad o Lifau Arian Parod am y deuddeg mis hyd at

31 Mawrth 2026

	Nodyn	2025/26 Cyfanswm £'000oedd	2024/25 Cyfanswm £'000oedd
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Gwariant gweithredu net	SoCNE	**(452)**	(481)
Addasiad ar gyfer dibrisio ac amorteiddio	3	**171**	123
Colled ar waredu asedau sefydlog	3	**0**	4
Llog a dalwyd ar Rwymedigaethau Prydles	3	**20**	6
Lleihad/(Cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	8	**61**	77
Cynnydd/(Lleihad) mewn symiau masnach taladwy	10	**(86)**	(109)
(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu		**(286)**	(380)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu Asedau Anniriaethol	6	**(57)**	0
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		**(57)**	0
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Grantiau gan yr adran sy'n noddi		**299**	305
Ad-daliadau cyfalaf a wnaed o dan rwymedigaethau prydles		**(68)**	(108)
Taliadau llog a wnaed o dan rwymedigaethau prydles		**(20)**	(6)
Ariannu net		**211**	191
Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod		**(132)**	(189)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod	9	**4,312**	4,501
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod		**4,180**	**4,312**

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 66 i 85 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr
Ar gyfer y deuddeg mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodyn	Cronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn £'000oedd
Balans ar 1 Ebrill 2024		4,450
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2024/25		
Gwariant Net		(481)
Cyfanswm yr Incwm a thraul gydnabyddedig ar gyfer 2024/25		(481)
Grant gan yr adran sy'n noddi		305
Balans ar 31 Mawrth 2025		**4,274**
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2025/26		
Gwariant Net		(452)
Cyfanswm traul gydnabyddedig ar gyfer 2025/26		(452)
Grant gan yr adran sy'n noddi	1.7	299
Balans ar 31 Mawrth 2026		**4,121**

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 66 i 85 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodiadau i'r cyfrifon

Mae'r nodiadau hyn yn rhan hanfodol o'r datganiadau ariannol ategol a dylid eu darllen ar y cyd â nhw.

1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004, Atodlen 2 (paragraff 16) ac yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 Busnes gweithredol

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn y Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i gyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar am werth teg ac asedau anniriaethol ar fodel costau, i'r graddau sy'n ofynnol neu a ganiateir o dan Lawlyfr Adrodd Ariannol 2025-26 fel y nodir yn y polisïau cyfrifyddu hyn.

1.3 Asedau anghyfredol

Asedau anghyfredol yw eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol, gan gynnwys costau caffael a datblygu systemau a meddalwedd gyfrifiadurol. Dim ond eitemau neu grwpiau o eitemau cysylltiedig sy'n cosio £5,000 neu fwy sy'n cael eu cyfalafu. Caiff eitemau sy'n costio llai eu trin fel gwariant refeniw yn y flwyddyn gaffael.

Caiff yr holl eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol a ddelir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2026 eu cario yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio. Codir costau dibrisiant ac amorteiddio i ddileu cost neu brisiad eiddo, cyfarpar offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol, llai unrhyw werth gweddilliol, ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Mae'r oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yn cynrychioli'r cyfnod lle mae'r Awdurdod yn disgwyl cael buddiannau economaidd neu gapasiti gweithredol o'r ased. Mae'r

cyfnod hwn yn benodol i ofynion yr endid a gall fod yn fyrrach nag oes ffisegol wirioneddol yr ased.

Offer a Chyfarpar

Technoleg Gwybodaeth	4 blynedd
Dodrefn a ffitiadau	3 neu 5 mlynedd
Costau Adnewyddu	5 neu 10 mlynedd
Asedau Hawl i Ddefnyddio (Prydlesau)	Cyfnod y brydles

Asedau anniriaethol

Technoleg Gwybodaeth	5 mlynedd
Gwefannau	3 blynedd

1.4 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (Gwariant datblygu)

Mae'r costau hyn yn ymwneud ag uwchraddio systemau'r Awdurdod, boed hynny'n galedwedd neu'n gymwysiadau sydd eto i'w defnyddio. Nid yw'r asedau hyn yn cael eu dibrisio. Cânt eu dibrisio o'r adeg y dechreuir eu defnyddio.

1.5 Amhariadau

Mae'r Awdurdod yn defnyddio dull symlach IFRS 9 o fesur colledion credyd disgwyliedig, sy'n defnyddio lwfans colledion disgwyliedig dros oes ar gyfer pob swm masnach derbyniadwy.

Wrth asesu'r lwfans gofynnol, mae'r Awdurdod yn ystyried profiad hanesyddol o ran colledion credyd, y sector penodol, a'r hinsawdd economaidd bresennol ac a ragwelir. Ar gyfer dyledion dros 28, 42 a 56 diwrnod oed, cymhwysir cyfradd ddiofyn wedi'i phwysoli er mwyn pennu'r risg bosibl.

Yn unol â chanllawiau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ni chaiff unrhyw amhariad ei gydnabod yn erbyn cyrff y GIG na chyrff hyd braich eraill yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan fod yr Adran yn darparu gwarant pan fetho popeth arall ar gyfer y balansau hyn.

1.6 Dyfarniadau cyfrifyddu hollbwysig a ffynonellau allweddol o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod, mae'n ofynnol i reolwyr lunio dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sy'n sail iddynt bob blwyddyn. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn ystod y cyfnod diwygio ac mewn

cyfnodau yn y dyfodol os bydd y diwygiad yn effeithio ar y cyfnod presennol a chyfnod yn y dyfodol. Y dyfarniadau y mae rheolwyr wedi eu llunio wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod ac a all gael effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yw:

IFRS 9: colledion credyd disgwyliedig – cynhaliwyd adolygiad o amhariad lle yr ystyrir gwybodaeth hanesyddol am ddyledwyr, yr hinsawdd economaidd bresennol a phroffil y sector. Cymhwysir pwysoliad at bob dyled yn unol â nifer y diwrnodau y mae wedi bod yn ddyledus. Mae hyn yn arwain at ddarpariaeth (colled credyd ddisgwyliedig) ar gyfer y symiau hyn sy'n ddyledus. Nid yw'r adolygiad hwn yn cynnwys dyledwyr sy'n rhan o'r GIG (gweler nodyn 1.5).

Yn unol ag IAS 37, mae'r Awdurdod wedi cydnabod croniad sy'n ymwneud â mater cyfreithiol yn ystod y cyfnod adrodd. Yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol, mae'r rheolwyr wedi barnu bod all-lif o fuddiannau economaidd yn debygol, a gwnaed amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau dibynnol yn 2025/26.

1.7 Cymorth Grant

Defnyddir cymorth grant a dderbynnir i ariannu gweithgareddau a gwariant sy'n cefnogi amcanion statudol ac amcanion eraill yr Awdurdod. Caiff cymorth grant ei drin fel ariannu a'i gredydu i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn, am ei fod yn cael ei ystyried yn gyfraniadau oddi wrth barti sy'n rheoli.

1.8 Prydlesau

Cwmpas a dosbarthiad

Caiff contractau sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth eu dosbarthu fel prydlesau. Yn unol ag IFRS 16, mae'r Awdurdod yn cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth brydles gyfatebol ar ddechrau'r brydles.

Mae'r Awdurdod yn cymhwyso'r eithriadau cydnabod ar gyfer asedau gwerth isel (eitemau sy'n costio llai na £5,000 pan fyddant yn newydd) a phrydlesau byrdymor (tymor o 12 mis neu lai). Ar gyfer y prydlesau hyn, cydnabyddir y taliadau prydles fel traul ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Cydnabod a mesur cychwynnol

Ar ddechrau prydles (neu'r dyddiadau IFRS gweithredol) mae'r Awdurdod yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles. Caiff y brydles ei mesur fel y taliadau ar gyfer cyfnod y brydles sy'n weddill yn glir o dreth ar werth anadferadwy, wedi'i ddisgowntio naill ai gan y gyfradd a nodir yn y brydles, neu lle na ellir penderfynu ar hyn, cost fenthyca ychwanegol yr Awdurdod. Ar gyfer yr Awdurdod, y gost fenthyca ychwanegol yw'r gyfradd a gynghorwyd gan Drysorlys EF ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Mae cyfnod y brydles fel y nodir yng nghytundeb y brydles. Cyflwynir y rhwymedigaeth yn nodyn 11.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei mesur i ddechrau yn unol â gwerth y rhwymedigaeth.

Mae gwariant yn cynnwys llog a dibrisiant llinell syth. Mae taliadau prydles yn gostwng rhwymedigaeth y brydles. Os yw'n gymwys, caiff taliadau rhent ar gyfer prydlesau eitemau

gwerth isel neu sy'n fyrrach na deuddeg mis eu gweithredu fel treuliau. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod eitemau gwerth isel na phrydlesau sy'n llai na deuddeg mis.

Mae'r Awdurdod yn ystyried bod y model cost yn brocsi rhesymol ar gyfer hyn.

Ailfesur Prydlesau

Yn unol ag IFRS 16, mae'r Awdurdod wedi adolygu ei rwymedigaethau prydles yn ystod y cyfnod adrodd. Ailfesurwyd y rhwymedigaeth prydles yn dilyn gostyngiad o ran arwynebedd llawr a'r gostyngiad canlyniadol mewn taliadau prydles yn y dyfodol, yn weithredol o fis Ebrill 2025.

Yn unol ag IFRS 16.44, rhoddodd yr Awdurdod gyfrif am newid yn y dirwedd prydlesau yn ystod y cyfnod adrodd. Cydnabuwyd addasiad i'r brydles yn dilyn gostyngiad o ran arwynebedd llawr yn 2 Redman Place a'r gostyngiad canlyniadol mewn taliadau prydles yn y dyfodol, yn weithredol o fis Ebrill 2025.

O ganlyniad i'r ailfesuriad:

-Bu lleihad o £118k yn y rhwymedigaeth prydles a chafodd yr ased hawl i ddefnyddio ei addasu yr un faint;
-Cydnabuwyd elw bach o £52 yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar y dyddiad ailfesur.

Mae'r symiau wedi'u hailfesur yn cael eu dibrisio dros gyfnod y brydles sy'n weddill yn unol â'n polisïau cyfrifyddu. Y gyfradd ddisgowntio a aseswyd a ddefnyddiwyd oedd cyfradd yr Awdurdod ar 1 Ebrill 2025.

1.9 Incwm

Mae ein prif ffynhonnell o incwm ar ffurf ffioedd am drwyddedau oddi wrth sefydliadau y mae meinweoedd dynol ar eu safleoedd a ffioedd penodedig oddi wrth weinyddiaethau datganoledig, am waith ar bolisïau a thrawsblaniadau.

O dan IFRS 15 a'r model 5-cam:
- Mae trefniant cytundebol rhwng yr Awdurdod a'i sefydliadau yn unol ag IFRS 15 a'r model pum cam. Tybir bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn gorfodi rhwymedigaethau cytundebol ar y ddau barti, ac felly ystyrir bod y trefniadau hyn yn gontractau o dan y safon.
- Mae rhwymedigaethau perfformiad yn bodoli rhwng yr Awdurdod a'r sefydliadau hynny yn y sectorau preifat a chyhoeddus a reoleiddir ganddo. Rhaid i'r sefydliadau gynnal safonau yn unol â'n Codau Ymarfer a chyflwyno manylion gweithgareddau a gynhelir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi trwydded os bydd wedi'i fodloni.
- Codir pris trafodyn (ffi trwydded) am roi trwyddedau ac am reoleiddio parhaus. Mae cost rheoleiddio parhaus yn seiliedig ar y sector, y math o weithgarwch a gynhelir gan bob sefydliad.
- Caiff pris y trafodyn ei ddyrannu i'r rhwymedigaeth ar yr Awdurdod i reoleiddio'r sefydliadau a rhoi trwydded.
- Caiff incwm ei gydnabod dros amser ar draws y flwyddyn ariannol y mae'r drwydded yn berthnasol iddi.

Mae incwm gweithredu arall a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn ymwneud â staff ar secondiad. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau, a thybir bod rhwymedigaeth o ran perfformiad o'r adeg y caiff y nwyddau neu'r gwasanaethau hyn eu darparu.

1.10 Buddiannau i gyflogeion

Cydnabyddir cyflogau a thaliadau sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y cyfnod y derbynnir y gwasanaeth oddi wrth gyflogeion. Cydnabyddir cost gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd gan gyflogeion ar ddiwedd y cyfnod yn y datganiadau ariannol i'r graddau y caniateir i gyflogeion gario gwyliau ymlaen i'r cyfnod dilynol.

1.11 Pensiynau

Caiff cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol eu cwmpasu gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y GIG (NHSPS). Ceir manylion am y buddiannau sy'n daladwy o dan y darpariaethau hyn ar wefan Pensiynau'r GIG yn www.nhsbsa.nhs.uk/pensions. Cynllun buddiannau diffiniedig nas ariannwyd ydyw, sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r Cynllun wedi'i gynllunio i redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i nodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y Cynllun. Felly, cyfrifir am y Cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: tybir bod cost cymryd rhan yn y Cynllun i'r Awdurdod yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

1.12 Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol pan fydd yr Awdurdod yn dod yn barti yng nghontract yr offeryn ariannol neu, yn achos symiau derbyniadwy contract, pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau wedi cael eu darparu. Caiff asedau ariannol eu dadgydnabod pan fydd yr hawliau cytundebol wedi dod i ben neu pan fydd yr ased wedi cael ei drosglwyddo.

1.13 Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd yr Awdurdod yn dod yn barti yn narpariaethau cytundebol yr offeryn ariannol, neu, yn achos symiau masnach taladwy, pan fydd wedi derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau. Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dadgydnabod pan fydd y rhwymedigaeth wedi cael ei thalu neu pan ddaw i ben.

1.14 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Ystyr arian parod yw arian parod mewn llaw ac adneuon ag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar ôl rhoi rhybudd o 24 awr ar y mwyaf. Byddai'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys buddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis neu lai i'r dyddiad caffael ac y mae'n hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

1.15 Safonau wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto

Cyhoeddwyd y Safonau a'r Dehongliadau canlynol gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ond nid yw'r Awdurdod wedi'u mabwysiadu eto gan nad ydynt yn ofynnol eto g an Lawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys na Llawlyfr Cyfrifyddu Grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

IFRS 18 – Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol – Mae'r Safon mewn grym ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027. Mae'r Awdurdod yn rhagweld y bydd hyn yn arwain at newidiadau yn y ffordd y caiff y datganiadau ariannol eu cyflwyno ond na fydd yn effeithio ar y broses sylfaenol o fesur asedau neu rwymedigaethau.

IFRS 19 – Is-gyrff heb Atebolrwydd Cyhoeddus, sy'n gymwys i gyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027. Nid is-gorff yw'r Awdurdod ac nid yw'n paratoi cyfrifon grŵp; felly, ni ddisgwylir i IFRS 19 gael unrhyw effaith ar ein datganiadau ariannol.

1.16. Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol bresennol ar yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i'r Awdurdod fodloni'r rhwymedigaeth, a gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r elfennau o ansicrwydd. Pan na fydd y gwariant yn cael ei wireddu neu pan na fydd yr amcangyfrif gorau yn crisialu, caiff y ddarpariaeth ei rhyddhau.

1.17 Rhwymedigaethau Dibynnol

Bydd rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i endid y caiff ei bodolaeth ond ei chadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth y corff yn gyfan gwbl yn digwydd neu os na fyddant yn digwydd.
Bydd rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi dan amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.
Yn unol ag IAS 37, ni chaiff rhwymedigaethau dibynnol eu cydnabod yn y fantolen, ond cânt eu datgelu yn y cyfrifon.

1.18 – Contractau Yswiriant

Mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad o'i gontractau gwasanaeth, ei indemniadau, a'i amrywiol gytundebau ariannu. Daethpwyd i'r casgliad nad yw'r Awdurdod yn cyhoeddi contractau yswiriant fel y'u diffinnir gan y Safon, ac nad oes ganddo unrhyw gontractau ailyswiriant ychwaith. O ganlyniad, nid yw mabwysiadu IFRS 17 wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, ei berfformiad, na'i lifau arian parod ar gyfer y cyfnod adrodd cyfredol na chyfnodau adrodd blaenorol.

2. Dadansoddiad o Wariant Net yn ôl Segment

O dan ddiffiniad IFRS 8, mae gan yr Awdurdod un segment gweithredu, ac amcanion y segment hwn yw trwyddedu ac arolygu safleoedd sy'n ymwneud â storio a defnyddio meinweoedd dynol at ddibenion megis ymchwil, trin cleifion, archwiliadau post-mortem, addysgu ac arddangosiadau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cymeradwyo organau a mêr esgyn sy'n cael eu rhoi gan bobl fyw.

Mae'r Awdurdod yn codi ffioedd am ei weithgareddau trwyddedu, sydd, ynghyd â chymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y corff sy'n ei noddi, yn cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion hyn.

3. Gwariant Arall

		2025/26	2024/25
		£'000oedd	£'000oedd
Costau Staff	3.1	**4,741**	4,366
Prynu nwyddau a gwasanaethau			
Costau rhedeg cyfrifiaduron		**513**	271
Recriwtio, hyfforddiant a lles staff		**137**	154
Gwasanaethau ymgynghori		**(5)**	15
Costau swyddfa a chostau gweinyddol		**28**	22
Contractau Cynnal a Chadw		**47**	82
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch		**227**	227
Cynadleddau a Digwyddiadau		**1**	1
Deunydd ysgrifennu a chyhoeddiadau		**30**	28
Gwasanaethau a Rennir		**70**	73
Cydnabyddiaeth yr Archwilwyr	(a)	**139**	108
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol		**102**	30
		1,289	1,011
Costau gweithredu eraill			
Llety		**147**	184
Costau Prosiectau		**259**	188
Telathrebu		**11**	10
		417	382
Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod			
Dibrisio ac amorteiddio	5, 6	**171**	123
Dileu Drwgddyledion	(b)	**1**	88
Symudiad mewn amhariad ar gyfer colled credyd ddisgwyliedig	8	**(34)**	(45)
Colled o waredu asedau anghyfredol		**0**	4
Llog ar Brydlesau		**20**	6
		158	176
Cyfanswm		**6,605**	5,935

Nodiadau

(a) Ffioedd archwilio	Mewnol	**79**	63
	Allanol	**60**	45
		139	108

(b) Rydym wedi adennill rhywfaint o'r dyledion a gafodd eu dileu yn 2024-25.

3.1 Costau sy'n ymwneud â staff

Mae costau staff yn cynnwys:

	Staff a Gyflogir yn Barhaol	Aelodau	Staff Dros Dro	Cyfanswm
	£'000oedd	**£'000oedd**	**£'000oedd**	**£'000oedd**
Cyflogau	3,395	131	6	**3,532**
Costau nawdd cymdeithasol	460	12	0	**472**
Costau pensiwn	737	0	0	**737**
Is-gyfanswm	4,592	143	6	**4,741**
Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan	(18)	0	0	**(18)**
Cyfanswm costau net	**4,574**	**143**	**6**	**4,723**

Ceir manylion y gydnabyddiaeth a dalwyd i'r Aelodau a'r Uwch Dîm Rheoli yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth. Ffi asiantaeth ar gyfer gwasanaethau penodi cyfnod penodol yw £6k.

4. Incwm

	Noder	**2025/26 £'000oedd**	2024/25 £'000oedd
Refeniw o gontractau:			
Incwm o Ffioedd Trwydded		**(6,041)**	(5,271)
Incwm oddi wrth y gweinyddiaethau datganoledig		**(56)**	(124)
		(6,097)	(5,395)
Incwm Gweithredu arall	4.1	**(56)**	(59)
		(6,153)	(5,454)

Cylch gwaith yr Awdurdod yw rheoleiddio'r broses o dynnu, storio, defnyddio a gwaredu organau a meinweoedd dynol o bobl fyw ac ymadawedig. Yn unol ag adran 16, atodlen 3, paragraff 2 (4) (f) a pharagraff 13 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, caiff yr Awdurdod roi trwyddedau i sefydliadau eraill a chodi ffioedd am y trwyddedau hynny.

4.1 Incwm Gweithredu Arall

Incwm arall – mae secondeion i'r tu allan yn cyfeirio at un aelod o staff a oedd yn gweithio i sefydliad arall yn rhan-amser.

5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

	Caledwedd Technoleg Gwybodaeth	Prydles Hawl i Ddefnyddio	**Cyfanswm**	**Prydlesi o fewn Grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2025	229	800	1,029	800
Ailbrisiadau	(4)	(117)	(121)	(117)
Ar 31 Mawrth 2026	225	683	908	683
Dibrisio				
Ar 1 Ebrill 2025	151	255	406	255
Tâl a godwyd am y flwyddyn	35	78	113	78
Ar 31 Mawrth 2026	186	333	519	333
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2026	**39**	**350**	**389**	**350**
Asedau sy'n eiddo i'r Awdurdod	39	0	39	0
Asedau a brydlesir gan yr Awdurdod	0	350	350	350
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025	78	545	623	545

	Caledwedd Technoleg Gwybodaeth	Prydles Hawl i Ddefnyddio	Cyfanswm	Prydlesi o fewn Grŵp yr Adran lechyd a Gofal Cymdeithasol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2024	269	749	1,018	749
Ychwanegiadau	19	0	19	0
Gwarediadau	(59)	0	(59)	0
Ailfesuriadau	0	51	51	51
Ar 31 Mawrth 2025	229	800	1,029	800
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2024	170	170	340	170
Tâl a godwyd am y flwyddyn	37	85	122	85
Gwarediadau	(56)	0	(56)	0
Ar 31 Mawrth 2025	151	255	**406**	255
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025	**78**	**545**	**623**	**545**
Asedau sy'n eiddo i'r Awdurdod	78	0	78	0
Asedau a brydlesir gan yr Awdurdod	0	545	545	545
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024	**99**	**579**	**678**	**579**

5a. Gwerth cario asedau hawl i ddefnyddio a rannwyd yn ôl parti i gontract

	£'000's
Prydleswyd oddi wrth yr Adran lechyd a Gofal Cymdeithasol	350
	350

6. Asedau Anniriaethol

	Technoleg Gwybodaeth	Dynameg CRM Technoleg Gwybodaeth	Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2025	1,132	115	110	1,357
Ychwanegiadau	74	0	0	74
Gwarediadau	0	0	0	0
Addasiadau/Trosglwyddiadau	110	0	(110)	0
Ailddosbarthu	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	1,316	115	0	1,431
Amorteiddio				
Ar 1 Ebrill 2025	1,132	2	0	1,134
Codwyd yn ystod y flwyddyn	33	23	0	56
Gwarediadau	0	0	0	0
Addasiadau/Trosglwyddiadau	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	1,165	25	0	1,190
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2026	**151**	**90**	**0**	**241**
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2025	0	113	110	223

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod

	Technoleg Gwybodaeth	Dynameg CRM Technoleg Gwybodaeth	Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu	Cyfanswm
Cost neu brisiad	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Ar 1 Ebrill 2024	1,132	0	0	1,132
Ychwanegiadau	0	115	110	225
Gwarediadau	0	0	0	0
Addasiadau/Trosglwyddiadau	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2025	1,132	115	110	1,357
Amorteiddio				
Ar 1 Ebrill 2024	1,132	0	0	1,132
Codwyd yn ystod y flwyddyn	0	2	0	2
Gwarediadau	0	0	0	0
Addasiadau/Trosglwyddiadau	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2025	1,132	2	0	1,134
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025	**0**	**113**	**110**	**223**
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2024	0	0	0	0

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod

7. Offerynnau ariannol

O dan IFRS 7 Datgelu Offerynnau Ariannol, mae'n rhaid datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg yn yr Awdurdod nag a fyddai'n arferol yn y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn gymwys iddynt yn bennaf. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu hystyried yn offerynnau sy'n newid y risgiau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Risg hylifedd

Mae'r Awdurdod yn cael y rhan fwyaf o'i incwm o ffioedd trwydded blynyddol sy'n daladwy gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn bennaf. Caiff gofynion adnoddau refeniw eraill eu hariannu drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhain, ynghyd â phroses gadarn o adennill dyledion, rhagweld llif arian parod a gwneud taliadau, yn sicrhau nad yw'r Awdurdod yn cael ei amlygu i risg sylweddol i'w hylifedd.

Risg y farchnad a chyfraddau llog

Ar 31 Mawrth 2026, roedd cyfraddau llog rhwymedigaethau ariannol yr Awdurdod yn ddim. Mae asedau ariannol yr Awdurdod yn ymwneud â symiau derbyniadwy a balansau arian parod a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2026 yn y cyfrif banc â Royal Bank of Scotland (Natwest). Pennir y llog ar falansau arian parod gan y banciau. Felly, nid yw'r Awdurdod yn cael ei amlygu i risg sylweddol o ran cyfraddau llog.

Risg credyd

Mae'r Awdurdod yn cael y rhan fwyaf o'i incwm o ffioedd trwydded o farchnad y GIG a'r farchnad y tu allan i'r GIG. Mae polisi rheoli credyd sy'n addas at y diben ar waith ganddo a, lle y bo'n gymwys, mae'n darparu ar gyfer y risg na chaiff dyledion eu had-dalu gan y sefydliadau hynny y mae'n eu trwyddedu. Felly, nid yw'r Awdurdod yn cael ei amlygu i unrhyw risg sylweddol o ran credyd.

Roedd yr adroddiad ar hen ddyledwyr ar gyfer symiau derbyniadwy gan y GIG a chan eraill ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

	£'000oedd
Heb fod yn ddyledus	1
Yn ddyledus ers 0-28 diwrnod	0
Yn ddyledus ers 29 diwrnod	10

Risg o ran arian cyfred

Sefydliad domestig ar y cyfan yw'r Awdurdod, gyda'r mwyafrif helaeth o'i drafodiadau, ei asedau a'i rwymedigaethau yn codi yn y DU ac mewn sterling. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithrediadau dramor. Felly, mae amlygiad yr Awdurdod i newidiadau mewn cyfraddau arian cyfred yn fach.

Offerynnau ariannol a ddelir gan yr Awdurdod

Yn ôl categori	Symiau derbyniadwy ac asedau ariannol eraill
	31-Maw-26
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	£'000
Symiau derbyniadwy contractau (yn glir o ddarpariaethau)	10
Symiau derbyniadwy eraill	3
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	4,180
Cyfanswm ar 31 Mawrth 2026	**4,193**
Symiau derbyniadwy contractau (yn glir o ddarpariaethau)	106
Symiau derbyniadwy eraill	17
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	4,312
Cyfanswm ar 31 Mawrth 2025	**4,435**

Rhwymedigaethau ariannol

Yn ôl categori	Rhwymedigaethau ariannol eraill
	31-Maw-26
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	£'000
Symiau taladwy contractau	63
Symiau taladwy eraill	29
Croniadau	379
Cyfanswm ar 31 Mawrth 2026	**471**
Symiau taladwy contractau	154
Symiau taladwy eraill	24
Croniadau	362
Cyfanswm ar 31 Mawrth 2025	**540**

Ar 31 Mawrth 2026, nid oedd gan yr un o rwymedigaethau'r Awdurdod gyfradd llog gyfnewidiol.

Gwerthoedd teg

Roedd gwerth teg yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol yn hafal i werth llyfr.

8. Symiau masnach taladwy ac asedau cyfredol eraill

	31-Maw-26	31-Maw-25
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Symiau derbyniadwy contractau (contractau â chwsmeriaid)	11	141
Lleihad mewn gwerth o ran colledion credyd	(1)	(35)
Symiau derbyniadwy eraill	3	3
Rhagdaliadau	128	79
Asedau contractau	0	14
	141	202

Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:

Nid oes unrhyw ddyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2025	4,312
Newid net mewn arian parod a balansau sy'n cyfateb i arian parod	(132)
Balans ar 31 Mawrth 2026	**4,180**

	31-Maw-26	31-Maw-25
	£'000	£'000
Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal:		
Banciau masnachol	0	61
Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth	4,180	4,251
	4,180	4,312

Roedd gan y balansau arian parod ar 31 Mawrth 2026 gyfradd gyfnewidiol.

10. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31-Maw-26	31-Maw-25
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau taladwy contractau	63	154
Symiau taladwy eraill	29	24
Croniadau	379	362
	471	540

Mae'r holl gredydwyr, gan gynnwys croniad o £60,000 ar gyfer achosion cyfreithiol, yn ddyledus o fewn blwyddyn. Nid oes unrhyw rwymedigaethau hirdymor.

11. Rhwymedigaethau Prydles

	Eiddo, offer a chyfarpar (Adeiladau)
	£'000oedd
Rhwymedigaethau prydles ar 1 Ebrill 2025	546
Ychwanegiadau	0
Gwaredu	0
Ailfesuriadau	(118)
Taliadau	(89)
Llog	20
Ar 31 Mawrth 2026	360

Y rhwymedigaethau ar gyfer y cyfnodau canlynol yw:		**31-Maw-26**
	Ased Hawl i Ddefnyddio (Prydles)	**Cyfanswm**
	£'000	**£'000**
Taladwy:		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	89	88
Yn hwyrach na blwyddyn, cyn pen pum mlynedd	315	315
Yn hwyrach na phum mlynedd	0	0
Llai elfen llog	(45)	(45)
Gwerth presennol rhwymedigaethau	**359**	**359**

12. Rhwymedigaethau Dibynnol

Nid yw'r rhwymedigaeth ddibynnol a nodwyd yn y llythyr cyn gweithredu ym mis Mai 2025 a oedd yn cyfeirio at rwymedigaeth honedig yng nghylch gwaith rheoleiddio'r Awdurdod yn cael ei hystyried yn rhwymedigaeth ddibynnol mwyach. Yn dilyn cyngor cyfreithiol pellach a'r gallu i bennu prisiad dibynadwy, ailddosbarthwyd y mater hwn. Cafodd croniad ffurfiol bellach ei gydnabod yn y cyfrifon i adlewyrchu'r rhwymedigaeth hon.

13. Trafodiadau â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y cyfnod nid oedd unrhyw un o Weinidogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, aelodau'r Bwrdd nac aelodau o'r staff rheoli allweddol, na phartïon sy'n gysylltiedig ag unrhyw un ohonynt, wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau perthnasol â'r Awdurdod.

Ystyrir bod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â nifer sylweddol o drafodiadau perthnasol â'r Adran, a chydag endidau eraill yr ystyrir bod yr Adran yn rhiant-Adran arnynt, gan gynnwys:

Sefydliadau

NHS Blood and Transplant (NHS BT)
Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
Ceir rhestr isod o'r unigolion y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi eu bod yn cydymffurfio â'r diffiniad o Bartïon Cysylltiedig fel y'i nodwyd yn IAS 24 (Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig) ac felly y tybir eu bod yn bartïon cysylltiedig yr Awdurdod sydd o fewn y Grŵp Adrannol.

Gweinidogion

Y Gwir Anrhydeddus Wes Streeting AS
Karin Smyth AS
Stephen Kinnock AS
Ashley Dalton AS
Y Farwnes Gillian Merron
Sharon Hodgson AS
Zubir Ahmed AS

Nodir isod fanylion Aelodau ein Bwrdd yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig am fod ganddynt fuddiannau mewn sefydliadau sy'n dal trwydded gan yr Awdurdod.

Aelodau'r Bwrdd

Lynne Berry Cadeirydd Llys Llywodraethwyr Prifysgol Westminster a Dirprwy Ganghellor

Steve Stanbury Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol City St George's, Prifysgol Llundain.

Gary Crowe (rhoddodd y gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd ar 30 Awst 2025) Cyfarwyddwr Anweithredol, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Athrofaol Gogledd Canolbarth Lloegr

14 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 10, ystyrir digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd cyfrifyddu hyd at y dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r cyfrifon. Cafodd y datganiadau ariannol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ar 9 Mehefin 2026. At ddibenion y cyfrifon hyn, caiff y dyddiad ar gyfer awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi ei ddehongli fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

E03545504
978-1-5286-6260-4